Dalier Sylw

Sganiwyd y llyfr isod ac felly efallai y ceir ambell i wall teipio sydd wedi ei greu drwy nam technegol wrth sganio. Gwnaethpwyd pob ymdrech i gywiro'r gwallau cyn osod y llyfr ar y wefan.

Y Groesffordd

Llythyr at Eglwysi Cymru

Gan

Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas y Cymod yn 1984

Mae'n amlwg i bawb fod o leiaf dwy farn o fewn yr Eglwys Gristnogol ynglŷn â'r modd y dylem ymateb i broblem rhyfel. Gwna hyn hi'n anodd i nifer o bobl ffurfio barn bendant. Geilw nifer o'r militarwyr eu hunain yn Gristnogion (mae Ronald Reagan yn honni ei fod wedi ei aileni, ac y mae Mrs Thatcher wedi troi i'r eglwys wladol, wedi bod yn Wesle). Y n eu tyb hwy mae Nifer ohonom sy'n arddel yr un ffydd a hwy yn bradychu'r ffydd honno drwy annog ymwrthod ag arfau rhyfel, sydd, meddant, mewn bodolaeth er mwyn ' amddiffyn ein gwareiddiad Cristnogol rhag comiwnyddiaeth ddi-Dduw'. Yn gyffredinol, credaf taw teg yw dweud fod barn y rhan fwyaf o aelodau'n heglwysi yn dilyn y trywydd yma hefyd.

Cymerir yn ganiataol fod ein gwareiddiad gorllewinol ni yn "Gristnogol " a bod pawb sy'n byw y tu hwnt i'r Llen Haearn yn anghristnogol os nad yn gwbl wrth-Gristnogol. Anwybyddir y ffaith y gellid dadlau ar sail ystadegau yn unig fod gwledydd y dwyrain yn llawer mwy 'Cristnogol' na gwledydd y gorllewin. Cymerer Gwlad Pwyl er enghraifft, dywedir fod ymhell dros dri chwarter y boblogaeth yn mynychu man o addoliad ar y Sul; gyda chyfartaledd hynod o uchel yn Nwyrain yr Almaen yn gwneud yr un modd. Yn yr Undeb Sofietaidd ei hun mae dros chwarter y boblogaeth yn ffyddlon i'w heglwysi. Cymharer hyn a Chymru ' Gristnogol ' lle nad oes and un o bob deg yn mynychu man o addoliad o gwbl a chynnwys hyn y ffyddloniaid-unwaith-y-flwyddyn sy'n dod i'r cyrddau diolchgarwch yn unig! Ac y mae gan bobl Cymru yr haerllugrwydd i ddweud fod ein gwlad ni yn fwy Cristnogol na'r dwyrain! !

Ond, meddir, mae ein trefn ni yn Gristnogol; cymharer hynny a'u trefn nhw o gomiwnyddiaeth ddi-Dduw. Rhaid inni ystyried y gosodiad hwn o ddifrif. Yn gyntaf rhaid ymdrechu ateb y cwestiwn: Beth yw ystyr ' Cristnogol '? Beth a olygir wrth ' fod yn Gristion"? Ceisiaf ateb, mewn modd annigonol mae'n siŵr, heb grwydro'n rhy bell oddi wrth y drafodaeth sylfaenol yn ei pherthynas a rhyfel.

BOD YN GRISTION

Ateb Iesu i'r cwestiwn beth a olygir wrth fod yn ddisgybl iddo ef yw: cyflawni ewyllys Duw fel y mae wedi ei ddatguddio ynddo ef; neu, mewn geiriau eraill, efelychu Iesu. Dyma dystiolaeth yr ysgrythurau: 'Dyma sut yr ydym yn gwybod ein bod ynddo ef :dylai'r hwn sy'n dweud ei fod yn aros ynddo ef rodio ei hun fel y rodiodd ef' (I Ioan 2: 6); ac meddai Paul: 'A bu ef farw dros bawb er mwyn i'r byw beidio a byw iddynt eu hunain mwyach, ond i'r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd ' (2 Corinthiaid 5: 15), ac eto, " Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu, gall roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef' (Colosiaid 3:17).

Cred nifer heddiw, ac ar hyd yr oesoedd ysywaeth, fod amddiffyn y ffydd, a'r gredo gywir, neu'r dehongliad cywir o'r ffydd, yn bwysicach na gweithredu yn unol â'r ffydd-hynny yw, y mae'r gyffes yn bwysicach na'r weithred. A defnyddio termau technegol, mae *ortbodoxy* (uniongrededd) yn bwysicach nag *orthopraxis* (unionweithreded). Mae pob math o gasineb a chynnen, rhyfeloedd a dinistr wedi eu hachosi pan fo rhyw garfan yn mynnu bod eraill yn *credu* yr un fath a hwy; dulliau anghristnogol yn cael eu defnyddio er mwyn hybu Cristnogaeth.

Nid dyma gred nac arddull lesu ei bun; iddo ef y mae'r gweithredu yn arglwyddiaethu ar y dweud (nid ymdrech sydd yma i wadu'r pwysigrwydd o gredu'n gywir, mae lesu ei bun yn datgan , . . . wrth dy eiriau y cei dy gyfiawnhau, ac wrth dy eiriau dy gondemnio' (Mathew I_: 37]-siarad yn gymharol a wnawn yma). , Nid pawb sy'n dweud wrthyf "Arglwydd, Arglwydd," fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd . . . Ewch ymaith . . . ddrwgweithredwyr' (Mathew 7: 21,23). Roedd cyffes y rhai a gondemniwyd yn iawn, ond eu gweithredoedd yn ddrwg. Wrth rybuddio pobl rhag y gau-broffwydi, meddai lesu, 'Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwy' (Mathew 7: 16). Cytuna Paul a'i Arglwydd, , Deisyf yr ydym ar i chwi gael eich llenwi trwy bob doethineb a de all ysbrydol, ag amgyffrediad o ewyllys Duw, er mwyn i chwi fyw yn deilwng o'r Arglwydd a rhyngu ei fodd yn gyfan gwbl, gall ddwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da o bob math . . .' (Colosiaid I: 9-1o). Wrth amlinellu llinyn mesur barn Duw ar bobl, dywed Paul , Bydd efyn talu i bob un yn 61 ei weithredoedd' (Rhufeiniaid 2: 6). , Fy mhlant,' medd Ioan, , gadewch i ni garu, nid ar air nac ar dafod, ond mewn gweithred a gwirionedd' (I Ioan 3: 18). Pwy y mae lesu'n cydnabod fel brawd a chwaer iddo, onid ' Pwy bynnag sy'n gwneud ewyllys fy Nhad sydd yn y nefoedd ' (Mathew 12: 5o) ?

Yn Mathew 25: 31-46, ceir y ddameg am farnu'r cenhedloedd ar ffurf didoli'r defaid oddi wrth y geifr. Achubir y defaid, nid oherwydd eu cyffes (mae'r ddwy garfan yn galw Mab y Dyn yn , Arglwydd '), ond am eu bod wedi gweithredu yn unol ag ewyllys yr Arglwydd drwy helpu'r anghenus, 'Yn wir rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch '. Condemnir y geifr am iddynt *weithredu* i'r gwrthwyneb gall esgeuluso'r anghenus, a thrwy hynny esgeuluso'r Arglwydd Iesu ei hun. Oni ddaeth iachawdwriaeth i Sacheus am iddo ymateb yn weithredol i ddyfodiad yr Arglwydd Iesu i'w fywyd ? Nid oes sôn amdano'n rhoi naill ai cyffes na chredo, dim and iddo newid ei ffordd a rhannu ei dda. Gwelir yr un gwirionedd wrth astudio ymateb Mair Magdalen gyda'i chyffes yn dilyn ei newid mewn ffordd o fyw.

Mae'n hollbwysig ein bod yn pwysleisio hyn: i Iesu, roedd ymateb yn gadarnhaol weithredol i'w berson yn bwysicach na damcaniaethu ynghylch ei berson.

Ei gwyn fawr yn erbyn y Phariseaid oedd fod y rheini yn manylu ar lythyren y ddeddf yn hytrach nag ymateb i'r Duw byw oedd yn siarad drwy ac uwchlaw'r ddeddf: 'Gwae chwi ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn talu degwm ar fintys ac anis a chwmin, ond gadawsoch heibio bethau trymach y Gyfraith, cyfiawnder a thrugaredd a ffyddlondeb, yr union bethau y dylasech ofalu amdanynt, heb adael heibio'r lleill. Arweinwyr dall! Yr ydych yn hidlo'r gwybedyn ac yn llyncu'r camel' (Mathew 23: 23_24), , . . . siarad y maent, heb weithredu' (Mathew 23: 3), oedd ei farn amdanynt a'i gondemniad *ohonynt.* Mae Paul eto yn ategu' ei feistr drwy sôn am yr un math o bobl, , Y maent yn proffesu eu bad yn adnabod Duw, ond ei wadu y maent a'u gweithredoedd' (Titus I: 16), Y rhai ' . . . sydd o ran eu ffordd o fyw yn elynion croes Grist ' (Philipiaid 3: 18). Ffydd yn y Grist byw sy'n mynnu gweithredoedd, yw pwyslais Paul yn barhaus, i'w wrthgyferbynnu ;i'r ffydd yn y Gyfraith, y ddeddf ysgrifenedig sy'n llethu dynion a chyfyngu eu gweithredoedd i ryw fanion dibwys. Heresi yw datgan fod Paul yn mynnu ffydd ar draul gweithredoedd, dadlau y mae dros weithredu drwy ffydd yn Iesu Grist yn hytrach na chredu bod iachawdwriaeth i'w chanfod drwy weithredu yn unol á'r Gyfraith. 'Ond yr ydym ni, trwy'r Ysbryd, yn disgwyl am y cyfiawnder yr ydym yn gobeithio amdano. Oherwydd yng Nghrist Iesu nid enwaediad (sy'n cynrychioli'r Gyfraith) sy'n cyfrif, na dienwaediad, ond ffydd yn gweithredu trwy gariad ' (Galatiaid 5: 5-6), mae hyn yn arwain at weithredoedd da a restrir ganddo yn yr un bennod, ac mae'n cloi'r adran yn y bennod nesaf (6: 9-1o): ' Peidiwn á blino ar wneud daioni. . . Felly, tra bydd amser gennym, gadewch i ni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd ' (ac nid gair sy'n cyfyngu ar weddill yr adnod yw'r ' enwedig' yna).

Rydym ninnau heddiw yn euog o siarad llawer, a gwneud dim byd; manylu ar ystyron geiriau a mynnu dehongliadau cywir, a throi'r Gair yn ddeddf- ac eto yn gwrthod gweithredu yn unol á'r Gair. Byw bywyd yn unol ag ewyllys Duw yng Nghrist yw ystyr bod yn Gristion. o ystyried hynny a allwn honni ein hod yn byw mewn gwlad a gwareiddiad Cristnogol? Nid a ydym yn cyffesu ein hod yn Gristnogion, ond a ydym yn gweithredu'n Gristnogol? Dyna'r maen prawf. Gan taw ystyr ' gweithredu'n Gristnogol.' yw cyflawni ewyllys Duw fel y'i canfyddir yng Nghrist, rhaid gofyn y cwestiwn: Beth yw ewyllys Duw?

EWYLLYS DUW

Ceir dau ateb traddodiadol i'r cwestiwn hwn; mae'r ddau yn wahanol iawn i'w gilydd yn eu goblygiadau, ac y mae'r gwahaniaeth rhyngddynt wedi peri cryn wrthdaro ar hyd y canrifoedd hyd heddiw. Mae prinder gofod yn mynnu taw symleiddio'r dadleuon sydd raid yn awr.

Yn fras, y dehongliad cyntaf o ewyllys Duw yw ei awydd i achub unigolion o'r byd hwn: daeth Iesu i fyd sydd wedi ei rwygo a'i sarnu gall bechod a drygioni; mae'r byd yn ddrwg ac yn llygredig; daeth Iesu i gynnig gwaredigaeth i'w etholedigion. Drwy ei aberth ar y groes agorwyd ffordd i'r nef i'r credinwyr- yno byddant uwchlaw dioddefaint, gwaradwydd a phoen mewn paradwysaidd wlad hyd byth- tra bydd y gweddill yn dihoeni a dioddef yn

enbyd yn uffern, a'r byd yn mynd a'i ben iddo. Ceir nifer o Gymry amlwg ymhlith yr ysgol hon ar hyd y canrifoedd, yn enwedig arweinwyr y Diwygiad Methodistaidd. I Williams Pantycelyn, anialwch oedd y byd y crwydrai drwyddo i fyd sydd well ei fyw - teg nodi iddo newid ei bwyslais erbyn diwedd ei oes ddaearol. Ffwrnais yw'r byd hwn i brofi'r saint, a phwrpas bywyd yw ennill ffordd i'r gogoniant sydd i ddod. Gall y pwyslais yma droi yn hunanoldeb ysbrydol pur, ac mae'n deg dweud fod arddelwyr yr athrawiaeth hon yn aml yn coleddu'r athrawiaeth *pseudo-Pawlaidd* nad yw gweithredoedd yn cyfrif dim gerbron Duw, mai'r gyffes o ffydd yn unig sy'n cyfiawnhau'r etholedigion. Mae hon yn heresi beryglus am ei hod mor apêlgar yn ei symlrwydd ac yn denu dyn yn ei ysfa hunanol am sicrwydd ei fod ef ei bun yn ddiogel. Twylla ddyn i feddwl nad oes angen iddo weithredu mewn modd arbennig: mae'r weithred wedi ei chyflawni drosto ar Galfaria. Arwain hefyd at hunan gyfiawnder sy'n nodweddu ei bun mewn agwedd ddirmygus at y , colledig '. Yr oedd yr agwedd hon yn dán ar groen yr Arglwydd Iesu; gwelai'r Phariseaid a'r Sadwceaid ac uchel - grefyddwyr eraill ei gyfnod yn euog ohoni: ' Yn wir, rwy'n dweud wrthych fod y casglwyr trethi a'r puteiniaid yn mynd i mewn i deyrnas Dduw o'ch blaen chwi' (Mathew 2 I: 3 I). Mewn gwir edifeirwch mae'r unigolyn yn sylweddoli ei angen; , Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd' (Mathew 5: 3). Mae'r hunangyfiawn yn euog o falchder ysbrydol fel yn nameg y Pharisead a'r casglwr trethi (Luc 18 : 9-14.) a dyna a ddaw o orbwysleisio'r sicrwydd personol sy'n mynegi ei hun yng ngeiriau agoriadol gweddi'r Pharisead ' o Dduw rwyf yn diolch iti am nad wyf fi fel pawb arall '-ni ddywedodd gelwydd amdano'i hun, ond yr oedd yn hunanfodlon ac yn sicr ei fod yn ddiogel gyda Duw.

Ystyriwyd eisoes bwyslais Iesu a'r Testament Newydd ar bwysigrwydd gweithredoedd. Yr un yw pwyslais yr Hen Destament: , Barnaf chwi . . . bob un yn ôl ei ffyrdd ei hun' (Eseciel 33: 2o), yw'r addewid dro ar 61 tro. Hen, hen heresi sydd wrth wraidd y gredo gyfeiliornus a amlinellwyd uchod. o fewn yr eglwys fore fe gafwyd gwahanol sectau y rhoddir yr enw ' Gnosticiaid ' arnynt. Yn eu tyb hwy, roedd y byd yn gwbl lygredig (aethant i'r eithafion o honni na allai Duw y Testament Newydd fod yr un Duw ag un yr Hen Destament am fod hwnnw wedi creu a chefnogi'r fath ddrygioni); ymwelodd y Duw da- neu ei gynrychiolydd- a'r byd drwg yma er mwyn achub yr ychydig etholedigion rhagarfaethedig a freintiwyd a'r ' gnosis' (gwybodaeth/ goleuni/ deall) o'u mewn. I'r gweddill anffodus fe baratowyd y tân tragwyddol. Rhywbeth i'w ddioddef dros dro oedd bywyd ar y ddaear, heb unrhyw bwysigrwydd iddo gall y byddai'r cyfan yn cael mynd i ddistryw. Arwydd go bendant i'r Gnosticiaid hyn fod person yn amddifad o'r ' gnosis' hollbwysig oedd fod y cyfryw berson yn anghytuno ag ef yn athrawiaethol -nid oedd Duw wedi dewis ei oleuo a'i achub! Er mor gyfarwydd y mae hyn yn swnio, hen heresi a wrthweithiwyd yn ffyrnig iawn gall Paul a loan a thadau'r eglwys fore oedd y daliadau gwyrdroëdig yma.

Dysgeidiaeth y Gair yw fod y byd hwn yn DDA yn ei hanfod,. ' Gwelodd Duw yr hyn oll. a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd ' . (Genesis I: 31);' Oherwydd y mae pob peth a greodd Duw yn dda.. .' (I Timotheus 4: 4). Mynega'r Arglwydd Iesu fod Duw yn caru ei greadigaeth i gyd, hyd yn oed lili'r maes a oedd yn fath o chwyn ym Mhalestina, a'r brain (Luc 12: 22f) ac adar y to (Mathew 1o: 29), adar y mae dynion yn eu casáu fel pla a phoendod. Trwy ddefnyddio arfau niwcliar bydd dyn yn dadwneud gwaith y Creawdwr.

Nid y greadigaeth sydd wedi mynd o'i le neu sy'n sylfaenol ddrwg, ond rhywbeth sydd wedi mynd o'i le ar ddyn- hwnnw sy'n creu drygioni. Dyma eto ddysgeidiaeth y Beibl, sy'n cael ei ymgorffori yn yr hanes arbennig o gyfoethog hwnnw yn Genesis-Adda (ei ystyr yw ' dynoliaeth') ac Efa (ei ystyr yw ' bywyd ') yng ngardd Eden. Pa un a dderbyniwn yr hanes yn llythrennol neu fel dameg, yr un yw'r gwirionedd a fynegir. Beth a ddywed sydd wedi mynd o'i le ar ddyn? Drwy gymryd o'r ffrwyth gwaharddedig fe aeth Adda ac Efa yn erbyn ewyllys Duw gall sefydlu'r duedd hynod beryglus sy'n ein nodweddu fel dynoliaeth o fentro ar rywbeth er mwyn gweld beth a ddigwydd. Fe greodd Duw hwy'n rhydd i ddewis, a dewisodd y ddau fynd yn erbyn dymuniad eu Creawdwr (gan arddangos ar yr un pryd y duedd hynod ddynol honno- bwrw'r bai ar rywun neu rywbeth arall). Ameuasant addewidion Duw a chredu'r sarff a ddywedodd 'Ni byddwch feirw ddim' (Genesis 3: 4); hynny yw peidiwch á chredu Duw. Dymunant hefyd fod 'megis duwiau ' (Genesis 3: 5), yn gwahaniaethu rhwng da a drwg. Heddiw yr ydym fel dynoliaeth yn union yr un cyflwr; mae ' pechod ' yn rhan o'n gwead etifeddol. ' Daeth pechod i'r byd trwy un dyn, a thrwy bechod farwolaeth, ac yn y modd hwn ymledodd marwolaeth i'r ddynolryw i gyd, yn gymaint ag i bawb bechu,' medd Paul (Rhufeiniaid 5: 12).

. Wrth dderbyn yr athrawiaeth hon o bechod gwreiddiol, fe sylweddolwn taw y 'fi ' sydd mewn gwrthryfel á Duw, y 'fi ' sydd ar fai am gyflwr y byd. Mae hyn yn gam holl -bwysig i ddod i edifeirwch ac i adnabod Iesu Grist, oherwydd rhaid sylweddoli fod ei angen ef arnaf i ac ar y byd cyn y gall ef ddod i'n bywydau a'n defnyddio. Yn Iesu fe gawn yr ' Ail Adda ',sef' Blaenffrwyth ' y ddynoliaeth newydd, y ddynoliaeth fel y mae Duw yn dymuno iddi fod, sydd yn cynnig gobaith a gwaredigaeth i bawb o blant dynion.

Ond rydym yn dal i amau; rydym yn amau addewidion Crist; dwli i'r rhan fwyaf ohonom yw credu taw cariad Duw sy'n mynd i orchfygu yn y pen draw - dyna'r rheswm dros ein parodrwydd i ddefnyddio dulliau y cydnabyddwn sydd yn ddieflig i hyrwyddo'r cariad hwnnw yn ein gwareiddiad 'Cristnogol'. .Nid ydym ni yn cymryd Iesu o ddifrif pan ddywed hwnnw, , Carwch eich gelynion' (Mathew 5: 44), rydym yn gwbl argyhoeddedig taw'r bom a'r lluoedd arfog sy'n mynd i greu a chadw heddwch, nid cariad Duw. Yn ein ffordd o fyw rydym yn datgan nad yw Duw a Iesu Grist yn ddim mwy na chelwyddgwn. 'Trecha di ddrygioni a daioni,' medd Paul (Rhufeiniaid 12: 21). 'Dwli,' meddwn ninnau; fe drechwn ni ddrygioni a mwy o ddrygioni; os oes ganddyn ' nhw' fomiau niwcliar, rhaid i ninnau gael rhagor; os oes ganddyn ' nhw' arfau cemegol a biolegol, rhaid i ninnau sicrhau rhai gwell. Mae'r Iesu yn rhybuddio'r rhai sydd yn dibynnu ar y cledd eu bad yn mynd i gael eu dinistrio gan y cledd (Mathew 26: 52), ond ni wrandawn arno dyma'r rheswm ein bod ar erchwyn difodiant. Pa bryd y sylweddolwn ein bod yn cablu'r Ysbryd Glan -y pechod oesol (Marc 3: 28); gall ein bad yn dweud fod dulliau Duw yn ddulliau dwl, fod y grym daionus yn rym drygionus sy'n ein gwanhau; cabledd ar Ysbryd Duw yw dweud taw lladd gelynion ac nid eu hachub yw ein dyletswydd. Daeth Iesu er mwyn ' . . . dangos geirwiredd Duw, sef ei fod yn cadarnhau'r addewidion i'r tadau, .a hefyd er mwyn i'r cenhedloedd ogoneddu Duw am ei drugaredd' (Rhufeiniaid 15: 8). Ninnau - mor anhrugarog ydym at ein gelynion, a hwythau atom ninnau; casáu ein gilydd yn lle caru; rhoi'n ffydd a'n hyder yng ngrym marwolaeth yn lle grym bywyd. Dyma beth yw amau Gair Duw.

Ar yr un pryd yr ydym yn chwenychu bad megis duwiau i benderfynu beth sy'n dda a drwg. Does dim gwahaniaeth yn y byd fod Iesu yn erchi arnom i fod yn ' dangnefeddwyr' (ystyr cywirach, er llai barddonol, y Groeg gwreiddiol ' *eirenopoioi'* yw ' gwneuthurwyr heddwch '), dyrchafwn y cadfridog a'r milwr i'r statws uchaf. Penderfynwn taw'r gwladweinwyr rhyfelgar a'r mwyaf anhrugarog yw'r rhai gorau; gwendid yn ein tyb ni yw ymwrthod a rhyfel. Arwyr yw'r rhai sy'n ymladd, a rhoddir iddynt ryddid i fod mor farbaraidd ag y dymunant fod; cachgwn a bradwyr yw rhai sy'n gwrthod ymladd yn filwrol. Ni sydd i benderfynu; does dim ots am farn Duw. Ni sy'n penderfynu pa ochr sy'n iawn mewn unrhyw wrthdaro. Nid cyd-ddigwyddiad yw hi, chwaith, ein hod bob *tro* yn penderfynu taw'n hochr ni sy'n iawn; bradwr yw'r person sy'n penderfynu fel arall. Ni sydd i benderfynu pwy sydd i fyw a marw -er mwyn hyrwyddo daioni adeg y rhyfe1 diwethaf bu'n rhaid i ddinasyddion Hiroshima, Nagasaki, Tokyo, Dresden a Hamburg farw mewn modd mwyaf erchyll. Ac rydym wedi ymdynghedu diwedd tebyg i drigolion dinasoedd *yr* Undeb Sofietaidd yn barod yn blant a henoed, yn Gristnogion yn ogystal â'r lleiafrif sy'n gomiwnyddion, am nad ydym yn cytuno a'u trefn. Bod megis duwiau! Gwe1wn *yr* un agwedd yn ein bywyd economaidd -rydym ni ein hunain i fyw yn fras, ond y mae trigolion y gwledydd tlawd i farw o newyn a syched mewn tlodi llethol. Trueni, medd dynion, twt-twt, ac yn y blaen ond dyna fe, dyna'r drefn. ond nid trefn Duw mohoni; trefn dynion sy'n gwrthod arweiniad Duw ac yn dilyn anhrefn y diafol. Y drefn economaidd o wead a gwneuthuriad dyn sy'n sicrhau'r anghyfiawnder affwysol hwn, sef fod dwy ran o dair o boblogaeth y byd i ddihoeni o newyn, tra bo'r traean arall (y ni) i fyw yn fras. Dynion sydd wedi gosod eu hunain megis duwiau er mwyn sicrhau hyn.

Y n gynnar yn y bumed ganrif fe wnaeth Cymro a oedd wedi ymfudo i Sisili, sylwadau ar anghyfiawnder trefn y cyfnod hwnnw. Yn anffodus ni wyddom enw awdur y llithiau a gariai'r enw ' Y Brython o Sisili " ond dyma (yn 61 John Morris yn ei lyfr *The Age of Arthur)* a ddywed: ' A yw cyfoeth bydol oddi *wrth* Dduw? . . . Pe byddai Duw wedi ewyllysio anghyfartaledd byd-eang ni byddai wedi caniatáu cyfartaledd yn *yr* e1fennau . . . A yw'r cyfoethog yn profi mwy o fendith o'r awyr iach na'r tlawd? A yw'n teimlo gwres *yr* haul yn fwy lieu yn llai? Pan fo'r ddaear yn derbyn y rhodd o law, a oes dafnau mwy yn cwympo ar ddaear y cyfoethog na'r tlawd? *Yr* hyn y mae Duw yn ei rannu, y mae'n ei rannu'n gyfartal; mae pob dim sydd yn cael ei berchenogi mewn anghyfartaledd wedi ei ymddiried i ddyn i'w rannu . . . nid yw anghyfartaledd cyfoeth i'w feio ar anraslonrwydd Duw ond ar hunanoldeb dynion.' Ceir yma adlais o eiriau Iesu: '. . . y mae ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn' (Mathew 5: 45). , Nid oes ffafriaeth gerbron Duw,' medd Paul (Rhufeiniaid 2: I I), ac eto dywed wrth drafod arian, 'Cyfartaledd yw'r diben ' (2 Corinthiaid 8: IS).

Fe ddaeth eglwys y cyfnod i ystyried daliadau o'r fath yn heresïau, ac o dan ddylanwad dysgeidiaeth Awstin o Hippo, fe erlidiwyd y rhai oedd yn coleddu'r fath safbwyntiau peryglus; enw'r heresi oedd Pelagiaeth, a sefydlwyd gall Gymro arall o'r enw Pelagius. Doluriwyd ef yn enbyd gall gyflwr ffiaidd y gwareiddiad Rhufeinig a honnai fod yn Gristnogol; fe'i cythruddwyd, fel proffwydi'r Hen Destament gynt, gall y dybiaeth gyffredin fod Duw yn bendithio'r fath sefyllfa am fod yr ymerodraeth yn honni ei bad yn Gristnogo1. Dysgai Pelagius taw dyn sydd yn gyfrifol am gyflwr pechadurus y byd gyda'i ddrygioni, anghyfiawnder, ecsploetio, tlodi ac ati, ac nid Duw. Fel llawer diwygiwr cynt a chwedyn, fe gariodd ei ddadleuon i eithafion drwy wadu pechod gwreiddio1. Dadleuai

Awstin, ar y llaw arall, taw Duw oedd wedi rhagarfaethu pob peth -os yw dyn yn gyfoethog neu yn dlawd, cadwedig neu yn golledig, y mae yn y cyflwr hwnnw am mai dyna yw dymuniad Duw. Cefnogai'r cyfoethogion a'r breintiedig gormesol y fath safbwyntiau yn frwd iawn yn yr un modd ag yr ydym ni yn barod i'w derbyn; cyfiawnhânt y drefn sydd ohoni, a pheth hawdd yw beio Duw am gyflwr trychinebus y rhelyw o'r ddynoliaeth; cabledd arall yn erbyn yr Ysbryd Glan. Ni bu Awstin yn amharod i ddefnyddio trais i erlid 'ymneilltuwyr' ei gyfnod - sef y Donatiaid, Cristnogion a wrthodai dderbyn awdurdod Rhufain. *Ef,* Awstin, hefyd a luniodd yr heresi am ' ryfel cyfiawn " credo sydd wedi cael dylanwad andwyol ar athrawiaeth yr eglwys o'r dydd hwnnw hyd heddiw, ac nad oes iddi'r un sail ysgrythur61. Yr Awstin yma, a ddyrchafwyd yn sant gall eglwys Rufain, yw un o arwyr pennaf y neo-uniongredwyr modern.

Arweinia'r cymysgwch yma o Gnosticiaeth / Awstiniaeth/ Platoniaeth(a bwysleisiai'r byd a ddaw -yno y ceir popeth da a pherffaith, nid yn y byd llygredig a drwg hwn), a ffurfiwyd yn athrawiaeth uniongred gall yr eglwys ' Gatholig " at unigolyddiaeth bur. Ei phen draw yw -does dim ots am y byd a'i broblemau, yr unig' beth sydd o dragwyddol bwys yw perthynas yr unigolyn, a Duw; hynny yw, sicrhau fy mod i wedi fy achub. Arwain yr hunanoldeb ysbrydol yma at ddiffyg unrhyw fath o ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol. , Tra 'mod i yn iawn gall y byd fynd a'i ben iddo " ac a rhai mor bell a chroesawu'r gyflafan niwclear ar y sail eu bod nhw yn iawn gyda Duw. Mentraf ddweud fod sioc uffernol yn disgwyl y rhain.

Gwyriad bach ar yr un trywydd yw'r gred y dylid caniatáu a chefnogi pwerau'r byd i wneud yr hyn a fynnant, mai dyna ewyllys rhagarfaethedig Duw, tra canolbwyntiwn ni, y cyfiawn ar sicrhau achubiaeth bersonol o fewn y fframwaith gosodedig yma. Heresi ddinistriol arall, ond hynod boblogaidd, yw'r pwyslais hwn. Ceir aml i wleidydd yn lleisio'r safbwynt, yn enwedig pan fo'r eglwys yn beirniadu'r llywodraeth. Mae'r eglwys hithau wedi derbyn, a phregethu, y gall athrawiaeth am lawer yn rhy hir.

Nid dyma a ddywed yr Arglwydd Iesu, ond i'r gwrthwyneb yn llwyr. Pan ddaeth gwr ifanc cyfoethog ato, yn ymboeni yn fawr am ei iachawdwriaeth bersonol, yn ymboeni digon i gadw at bob manylyn o'r ddeddf ysgrythurol osodedig, fe adnabu Iesu ef ar unwaith. Gwelodd taw ei brif rwystr oedd ei hunanoldeb-materol ac ysbrydol (mae'r ddau'n cydgerdded mor aml), , Os mynni rod yn berffaith,' meddai Iesu wrtho, , dos, gwerth dy eiddo a dyro i'r tlodion, a chei drysor yn y nefoedd; a thyrd a chanlyn fi.' Helpu'r anffodus a rhoi ei bun yn llwyr i wasanaethu'r Arglwydd oedd modd ei iachawdwriaeth -ond mi wrthododd, 'yr oedd yn berchen meddiannau lawer' (Mathew 19: 21-22). Yn nameg Lasarus (Luc 16: 19-31) ceir yn y dyn cyfoethog bortread o ŵr o Iddew a
wrthodai ymboeni am gyflwr Lasarus dlawd. Nid y cyfoethogyn oedd yn uniongyrchol gyfrifol am gyflwr truenus Lasarus -derbyniai yn hapus drefn osodedig Duw- yn unol a'i gred, ac eto canfu ei bun yn uffern am iddo ymwrthod a'i gyfle a'i gyfrifoldeb i wneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa. Yn ei hunanoldeb yr oedd yn mwynhau ei wynfyd daearol. Felly ninnau, rydym yn Gael ein bendithion tymhorol ar draul dioddefaint eraill, ac yn defnyddio'n hadnoddau i ' amddiffyn ' y drefn honno yn hytrach na bwydo Lasarusiaid ein

byd. 'ond gwae chwi'r cyfoethogion, oherwydd yr ydych wedi cael eich diddanwch ' (Luc 6: 24), , . . . y mae'n haws i gamel fynd trwy grau nodwydd nag i ddyn cyfoethog fynd i mewn i deyrnas Dduw ' (Mathew 19: 24), yw geiriau'r Arglwydd Iesu.

Meddai Iesu yn Luc (17: 1-2) rod achosion cwymp yn sicr o ddod ar draws Hirer o'i ganlynwyr: '. . . ond gwae'r hwn sy'n gyfrifol amdanynt; byddai'n well iddo rod wedi ei daflu i'r môr a maen melin am ei wddf, nag iddo rod yn achos cwymp i un o'r rhai bychain hyn.' Dyna ichi osodiad cymdeithasol! Fe'i cyfeirir at bwy bynnag sydd drwy ei ffordd o fyw, ei eiriau neu ei weithredoedd yn rhwystro eraill rhag dod at Iesu. Sawl un ohonom sydd wedi annog ein pobl ifanc i geisio yn gyntaf gyfoeth a gyrfa lwyddiannus? Sawl un yn ein plith sydd wedi cefnogi'n hieuenctid i ymuno a'r lluoedd arfog? Ac onid rhwystro'r comiwnyddion, ac eraill, rhag clod at Iesu a wnawn drwy adeiladu gelyniaeth ac ofn rhyngom drwy fygwth eu lladd wrth y miliynau yn hytrach na dymuno eu hachub?

Neges gymdeithasol sydd yn nameg y didoli (Mathew 25: 3 I -46) y sylwyd arni'n barod -faint o ymdrech a roddwyd i helpu eraill yw'r llinyn mesur. Helpu ei elyn a wnaeth y Samoriad Trugarog (Luc 1o: 25ff)-hwnnw oedd ei gymydog a gwrthrych ei gariad ymarferol - person o genedl arall, nag adnabu ac a oedd yn elyn traddodiadol iddo.

Yn nameg y gwas anfaddeugar fe adlewyrchir sefyllfa hynod o ddiddorol a chyfoes (Mathew 18: 21ff). Fe aeth y gwas, a oedd mewn dyled anferth, gerbron ei feistr ac erfyn am faddeuant. Cafodd ei faddau, ac felly roedd wedi ei gyfiawnhau gerbron ei Arglwydd a'i feistr, ond eto yn uffern yr oedd. Pam? Am nad oedd wedi ymateb yn gadarnhaol a gweithredol i'r maddeuant a dderbyniodd er, drwy estyn hynny i'w gyd -was a oedd mewn dyled bitw iddo er. Nid oedd wedi gweithredu'r cariad a ddangoswyd tuag ato yn gymdeithasol. Roedd wedi ymddwyn yn gyfan gwbl o fewn ei hawliau, ac o fewn y gyfraith; ond eto colledig oedd, Fel dywed Paul' Bydd ef yn talu i bob un yn ôl ei weithredoedd . . . ' (Rhufeiniaid 2: 6). Gweithredoedd ac nid y llythyren ddeddfol sy'n cyfrif.

Mae Iago wedi ei osod yn ddigon eglur (2: 14-17):' *Fy* mrodyr, pa les yw i ddyn ddweud fod ganddo ffydd, ac yntau heb weithredoedd? A all ei ffydd ei achub er? Os yw brawd neu chwaer yn garpiog ac yn brin o fara beunyddiol, ac un ohonoch yn dweud wrthynt "Pob bendith ichwi: cadwch yn gynnes a mynnwch ddigon o fwyd", ond heb roi dim iddynt ar gyfer rheidiau'r corff, pa les ydyw? Felly hefyd y mae ffydd, os nad oes ganddi weithredoedd, yn farw ynddi ei hun.' Ategir hyn gall Ioan: 'Yr hwn sy'n dweud, "Rwyf yn ei adnabod", a heb gadw ei orchmynion, y mae hwnnw'n gelwyddog' (I Ioan 2: 4) ac eto: ' Pwy bynnag sydd â meddiannau'r byd ganddo, ac yn gweld ei frawd mewn angen, ac eto'n cau ei galon yn ei erbyn, Slit y mae cariad Duw yn aros ynddo er? *Fy* mhlant, gadewch i ni garu, nid ar air nac ar dafod, ond mewn gweithred a gwirionedd' (I Ioan 3: 17-18).

Dyma yw ewyllys Duw i'w bobl, nid hod yn bobl hunanol, bydol a materol ein bryd, , Y mae'r byd a'i drachwant yn mynd heibio, ond y mae'r hwn sy'n gwneud ewyllys Duw yn aros am byth' (I Ioan 2: I 7); na hod yn hunanol yn ysbrydol, ond dwyn yr Efengyl i'r gymdeithas i'w newid. 'Y mae ein bryd felly . . . ar fod yn gymeradwy ganddo ef. Oherwydd rhaid i fywyd pawb ohonom gael ei ddwyn i'r amlwg gerbron brawdle Grist, er mwyn i

bob un dderbyn ei dal yn ôl ei weithredoedd yn y corff, ai da ai drwg , (2 Corinthiaid 5: 9-l o). Gyda'r rhybudd yna gall Paul, terfynwn yr adran yma am yr ysgol unigolyddol o feddwl.

IESU - GWAREDWR Y BYD

Yn syml, credo'r ail ysgol o feddwl yw: daeth lesu i'r byd i achub y byd, , .. . yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfrif troseddau dynion yn eu herbyn, ac y mae wedi ymddiried inni neges y cymod ' (2 Corinthiaid 5: l9) medd Paul. Daeth lesu oherwydd fod Duw yn caru'r byd, 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo rai ei unig Fab, er mwyn i bawb sy'n credu ynddo ef beidio a mynd i ddistryw ond Gael bywyd tragwyddol' (Ioan 3: l 6). Y Groeg am ' byd ' yw ' *cosmos'* -y cyfanfyd. Sylwer ar y defnydd o'r gair ' pawb.', nid yr ychydig breintiedig sy'n perthyn i draddodiad neu wareiddiad arbennig. Nid yr ychydig yw gwrthrychau cariad Duw, ond *y cosmos,* ac nid ei ddymuniad yw gweld unrhyw un yn mynd i ddistryw. Dyma dystiolaeth yr Hen Destament a'r Newydd: , Dywed wrthynt, Fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, nid ymhoffaf ym marwolaeth yr annuwiol; ond troi o'r annuwiol oddi wrth ei ffordd, abyw: dychwelwch, dychwelwch oddi wrth eich ffyrdd . drygionus' (Eseciel 33: l l); ac wrth gloi ei ddameg am y ddafad golledig dywedodd lesu, yn 61 Luc, , Rwy'n dweud wrthych . . . bydd mwy o lawenydd yn y nef am un pechadur sy'n edifarhau nag am naw deg a naw o ddynion cyfiawn nad oes arnynt angen edifeirwch..' (LU:Cl5: 7), ac ychwanega Mathew, 'Felly nid ewyllys -eich. Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, yw hod un o' rhai bychain hyn 'argoll'. (Mathewl8 :.l4); ategir hyn ynaillythyr Pedr (2 Pedr 3: 9), .' Oherwydd nid y,,'tYl1 ewyllysio i neb gad ei ddinistrio, ond i bawb ddodi edifeirwch '. le, bwriad lesu yn ei ddyfodiad yw achub y . *cosmos.i.gyd_* '.oherwydd nid i gondemnio'r .byd yr anfonodd Duw ei fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef' . (loan 3:' .17); ac. mae lesu ei. hun yn datgan yn loan l2: 47, , Oherwydd ni ddeuthum i farnu'r byd ond *i* achub y byd'.

Geir hanes diddorol am lesu a'r ddau frawd gwyllt hynny, Iago ac loan, a elwid yn Boanerges (meibion y daran) am eu bad mor eithafol a ffyrnig, yn mynd ar daith drwy Samoria am Jerwsalem (Luc 9: 5 l -56). Gan taw gelynion traddodiadol oedd yr Iddewon a'r Samoriaid, fe wrthododd y pentref roddi lloches i'r tri am noson. Dyma'r brodyr ar unwaith yn colli eu tymer yn lan -a phwy mewn gwirionedd a allai eu beio, dyma ddicter cyfiawn, wedi'r cyfan yr oedd y pentref yma yn troi Arglwydd y byd ma's i oerfel y nos - a dyma hwy yn annog yr union beth a gefnogwn ninnau yn ein dicllonedd hunangyfiawn yn erbyn y Rwsiaid ac eraill sy'n gwrthod Grist, sef cael tan i lawr o'r nef i ddifa a dinistrio'n llwyr y pentref drygionus. Roeddent yn credu eu hod yn gwneud yn odidog drwy gadw at fanylyn yr ysgrythurau, am i Elias wneud yr un m6dd yn ôl yr Hen Destament (2 Brenhinoedd I: 1o). 'Ond troes ef a'u ceryddu, "Ni wyddoch," meddai, "o ba ysbryd yr ydych. Oherwydd ni ddaeth Mab y Dyn i ddinistrio bywydau dynion ond i'w hachub".' Y diafol a phwerau'r tywyllwch a'u defnyddiai i annog a dymuno dial a dinistrio'i gelynion, eu hachub yw dymuniad Duw yn lesu Grist.

Elfen holl bwysig yn yr achubiaeth i ddynion yw'r rhyddid a ddaw drwy Grist, , I ryddid y rhyddhaodd Grist ni. Safwch yn gadarn, felly, a pheidiwch a phlygu eto i iau caethiwed'

(Galatiaid 5: I). Yn 61 Luc, dyma oedd thema pregeth gyntaf Iesu pan ddefnyddiodd adnodau agoriadol pennod 6 I o broffwydoliaeth Eseia fel testun: 'Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd' (Luc 4: 18). Wrth wrando'r geiriau yma byddai'r Iddewon yn derbyn y dehongliad traddodiadol am ddyfodiad y Meseia (yr eneiniedig) gyda'r efengyl (newyddion da) am ryddid gwleidyddol o orthrwm gelynion, dyma a wnaeth Duw a'i bobl yn yr Aifft ac ym Mabilon. Nid oedd bwriad gall Iesu i ddileu y dehongliad traddodiadol / gwleidyddol yma-' Peidiwch a thybio i mi ddod i ddileu'r Gyfraith na'r proffwydi; ni ddeuthum i ddileu ond i gyflawni' (Mathew 5: 17), ychwanega rybudd i'r rhai hynny sy'n ceisio Gael gwared ar y pwyslais gwleidyddo1: 'Am hynny pwy bynnag fydd yn dirymu un o'r gorchmynion lleiaf hyn ac yn dysgu i ddynion wneud felly, gelwir ef y lleiaf yn nheyrnas nefoedd. Ond pwy bynnag a'i ceidw ac a'i dysg i eraill, gelwir hwnnw'n fawr yn nheyrnas nefoedd' (Mathew 5: 19). Yr hyn a wnaeth Iesu yn ei bregeth gyntaf, a thrwy ei holl weinidogaeth oedd dwysau'r ystyr, ac nid ei ddileu. Mae pob gorthrwm ac anghyfiawnder yn ganlyniad uniongyrchol i bechod dyn- pechod sy'n gyfrifol am ormes yr imperialydd yn ogystal ag am waseidd-dra y taeog. Gwrthryfel cenedl y Cymry yn erbyn Duw sy'n esbonio'i chyflwr taeogaidd heddiw. Neges i'r perwyl oedd gall Iesu i'w gyd bentrefwyr yn Nasareth, ac ni hoffwyd y neges, ceisiwyd ei ladd! Nid oedd yr Iddewon, yn 61 Iesu, yn barod i wynebu'r cyfrifoldeb yr oedd Duw wedi ei osod arnynt fel cenedl. Dyma fyrdwn neges y proffwydi hwythau drwy'r canrifoedd. Dyma'r gwir am gyflwr Cymru heddiw, drwy ymwrthod a'r pwrpas dwyfol iddi y mae'r genedl yn ei dinistrio'i hun.

Mae rhyddid yn air a syniad pwerus ac emosiynol iawn, dyna pam y gwneir defnydd mor helaeth ohono gall awdurdodau daearol. Gwyr y rhain yn iawn fod dynion yn rhoi eu teyrngarwch i ba drefn bynnag y credant sy'n rhoi rhyddid iddynt. Mae trwch y Cymry yn credu mae'r drefn Brydeinig sy'n rhoi'r rhyddid yma, a dywed y drefn yma yn ei thro taw militariaeth ac arfau rhyfel, niwcliar a chonfensiynol, sy'n sicrhau- ac yn cadw'r rhyddid hwnnw; dyna pam mae'r trwch ohonom mor barod i ymddiried yn y drefn. Ar lefel bersonol, cred y mwyafrif yw fod cyflawnder o arian ac adnoddau materol yn rhyddhau; a chred eraill fod alcohol a chyffuriau yn rhyddhau dyn o orthrwm. ond i'r unigolyn yn gaethwas i'r hyn a greda sy'n ei ryddhau. Nid oes gwir ryddid i neb na dim os nad yw hwnnw yn cynrychioli ystyr a phwrpas bywyd. Dim ond yn' Iesu' Grist y ceir hynny, , Felly os yw'r mab yn eich rhyddhau chwi, byddwch yn rhydd mewn gwirionedd ' (loan 8: 36). Gwyddai Paul fod derbyn Iesu Eel y rhyddhäwr yn golygu bad yn gaethwas iddo, , ond, yn awr, yr ydych wedi eich rhyddhau oddi wrth bechod, a'ch gwneud yn gaethweision Duw' (Rhufeiniaid 6: 22). Os credwn taw grym marwolaeth sy'n ein cadw'n rhydd, fe fyddwn yn gaeth i farwolaeth hyd byth. ond y newyddion da yn Iesu Grist yw fod grym cariad Duw yn drech na marwolaeth ac ef sydd yn ein rhyddhau, , o angau, lle mae dy fuddugoliaeth? o angau, lle mae dy golyn?' (I Corinithiaid IS: 55).

Felly, yn Iesu Grist, fe gawn gyfuniad anwahanadwy o'r gwleidyddol a'r personol. Y mae ef wedi dinistrio grym marwolaeth a dinistr, sy'n ganlyniad i bechod dyn ac sy'n caethiwo pob elfen o fywyd daearol, ac yn rhoi gobaith ac ystyr newydd a llawnach i fywyd.

Ein dyletswydd ninnau yw mynd a'r newyddion da yma am Dduw sy'n cynnig rhyddid a gwaredigaeth i'r byd at *bawb,* er mwyn achub y byd i gyd, , Nid oes dim gwahaniaeth

rhwng Iddew a Groegwr. Yr un Arglwydd sydd i bawb, a chyfoeth ei ras i bawb sydd yn galw arno. Oherwydd yng ngeiriau'r Ysgrythur "bydd pawb sydd yn galw ar enw yr Arglwydd yn cae1 ei achub, pwy bynnag yw" , (Rhufeiniaid 1o: 12-13). Nid yw Duw yn dewis a dethol i ba garfan neu adran o ddynoliaeth y mae'n cynnig iachawdwriaeth, 'Nid oes ffafriaeth gerbron Duw' (Rhufeiniaid 2: 4), ac mae pobl yr Arglwydd yn anwybyddu gwahaniaethau hil, dosbarth a rhyw yn eu cymdeithas, , Nid oes y fath beth ag Iddew a Groegwr, caeth a rhydd, gwryw a benyw, oherwydd un ydych chwi o11 yng Nghrist Iesu ' (Galatiaid 3: 28). Cymharer â Colosiaid 3: I I lle y pwysleisir hefyd ' enwaediad a dienwaediad " hynny yw, yng ngolwg Duw cid yw'r rhai sy'n manylu ar lythyren y ddeddf ysgrythurol ddim gwell na'r rhai sy'n ei gwrthod fel modd i achubiaeth. Felly yn 61 Paul, nid yw Duw yn gwrthod neb sydd yn troi ato _ein dyletswydd ni, ei eglwys er, yw bwrw ati i gynnig y newyddion da i bob cwr o'r byd, er mwyn newid y byd i'r hyn y mae Duw yn dymuno iddo rod, a chydweithio gydag ef i achub y byd. 'Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i'r greadigaeth i gyd ' (Marc 16: IS) yw dymuniad Iesu ohonom.

Nid rhywbeth sydd yn gyfyngedig i unigolion yw'r Efengyl yma; mae'n mynd i achub y greadigaeth oll o'r pwerau drygionus sy'n ei lywodraethu a chreu ' . . . yn ôl ei addewid ef. . nefoedd newydd a daear newydd, lle bydd cyfiawnder yn cartrefu' (2 Pedr 3: 13); , We1e yr wyfyn gwneud pob peth yn newydd ' (Datguddiad 21: S) yw addewid Iesu Grist i ddynion. Ac meddai Paul, 'Yn wir y mae'r greadigaeth yn disgwyl yn daer am i feibion Duw gae1 eu datguddio. Oherwydd darostyngwyd y greadigaeth i oferedd . . . yn y gobaith y di'r greadigaeth hithau ei rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth, a'i dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw. Oherwydd fe wyddom rod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw' (Rhufeiniaid 8: 19-23). le, achub y cyfan o11 yw ewyllys Duw, drwy ddwyn y cyfan at Grist; medd Paul eto:' Hysbysodd i ni ddioge1wch ei ewyllys, y bwriad a arfaethodd rug Nghrist yng nghynllun cyflawniad yr amseroedd, sef *dwyn yr holl greadigaeth* i undod yng Nghrist, gall gynnwys *pob peth* yn y nefoedd ac ar y ddaear' (Effesiaid I: 9-1o). Dyma bwrpas yr ymgnawdoliad, Duw yn gweithio drwy Iesu i gymodi'r cyfan ag ef ei hun: 'Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w hall gyflawnder breswylio ynddo ef [Iesu], a thrwyddo er, ar o1 gwneud heddwch trwy ei farw aberthol ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd ' (Colosiaid I: 19-2o). Gwaith yr eglwys yw paratoi'r ddynoliaeth drwy hybu'r disgwyl a ' . . . prysuro ei ddyfodiad' (2 Pedr 3: 12).

Ni allwn gyflawni'r fath waith o baratoi'r byd i'r hyn sydd gall Dduw ar ein cyfer yn ein nerth ein hunain. Addawodd Iesu y byddai'r Ysbryd Glan yn ein helpu, 'Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glan ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerw-salem [cynefin], ac yn holl Jwdea [cenedl] a Samoria [gelynion], a hyd eithaf y ddaear' (Actau I: 8). Drwy rym yr Ysbryd felly, y mae'r eglwys i ennill a newid y byd, rod drwy rym arfau, 'Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd " yw tystiolaeth Sechareia (4: 6) yn yr Hen Destament. Duw trwy ei Ysbryd sydd yn mynd i achub a gwaredu'r byd, a thrwy gyflawni ei ewyllys y cydweithiwn ag ef yn ei waith achubol; trwy herio ei ewyllys, dinistrir y byd. Ffordd Duw yw ffordd cariad, cyfiawnder, ffyddlondeb a daioni, a'r modd i drechu drygioni a phechod yw trwy efelychu Duw, 'Trecha di ddrygioni a daioni " medd Paul (Rhufeiniaid 12: 21) a ' Felly byddwch chi'n berffaith fel y mae eich Tad nefol yn berffaith', yw anogaeth Iesu (Mathew 5: 48). 'Ni all cariad wneud cam a chymydog', medd Paul yn Rhufeiniaid (13: 1o); ond, medd rhai, nid

ydym yn dymuno cam i'n cymdogion, dim ond i'n gelynion. Fe gofiwch i ŵr ofyn i Iesu ' Pwy yw fy nghymydog?' ac i Iesu adrodd dameg y Samoriad Trugarog fel ateb-dy elyn yw dy gymydog; a'i archiad ar y diwedd oedd: 'Dos, a *gwna* dithau yr un modd' (Luc 1o: 37).

Mae Paul yn pwysleisio'r pwysigrwydd o weithredu'n ddyfalbarhaus er mwyn ennill pobl o bob cefndir, gwnaeth hynny yn wyneb gwrthwynebiad cryf iddo gall bobl a ddywedai fod gras Duw yn gyfyngedig i'r ychydig, yr Iddewon o ran cred, , Nid ydynt yn boddhau Duw, ac y maent yn elyniaethus i bob dyn, gall eu bad yn ein rhwystro ni rhag llefaru i'r Cenhedloedd er mwyn iddynt gael eu hachub' (I Thesaloniaid 2: 16). Paul druan, nid oes unrhyw 'un wedi ei gamddefnyddio mewn dadleuon diwinyddol fel efe, Paul a frwydrodd mor galed i sicrhau Had oedd yr efengyl yn cael ei chyfyngu i un garfan arbennig o ddynoliaeth ond ei hestyn i bawb, yn cael ei ddefnyddio heddiw gall Hirer mewn ymdrech i brofi yr union beth y treuliodd ef ei fywyd yn ei wrthbrofi. Byw a bod er mwyn ennill pobl i Grist a wnaeth; dyna ein cyfrifoldeb ninnau, ' Felly beth bynnag a wnewch . . . gwnewch bopeth er gogoniant Duw . . . Byddwch yn debyg i minnau; yr wyf fi'n ceisio boddhau pawb ym mhob peth, heb geisio fy lles fy hun, ond lles y lliaws, iddynt gael eu hachub' (I Corinthiaid 1o: 31, 33). Onid yw rhyfel i'r gwrthwyneb i hyn? LIes ein gwlad a'n heiddo ein hunain a geisiwn, a bodlonwn weld miliynau o bobl yn cael eu llofruddio er mwyn inni allu sicrhau parhad ein ffordd ni o fyw.

I achub y byd y daeth Iesu i'r byd, cymodi'r byd a Duw, gosod y ddynoliaeth ar y llwybr cywir at Dduw a dwyn i mewn y drefn newydd. Ei fwriad yw carthu'r byd o'r drygioni sy'n ei ddifa a'i arwain i ddistryw. Medd Iesu, '. . . yn awr y mae tywysog y byd hwn i gael ei fwrw allan' (loan 12: 3 I), ac medd loan yn ei lythyr: , I ddinistrio gweithredoedd y diafol yr ymddangosodd Mab Duw ' (I loan 3: 5). Ac wrth galonogi ei ddisgyblion meddai Iesu eto, ' Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf wedi gorchfygu'r byd ' (loan 16: 33).

Yn ei fuddugoliaeth achubol y mae Iesu mewn gwirionedd wedi clod yn _Waredwr y byd" (I loan 4: 14.), ' . . . ef sydd foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau, ac Hid puredigaeth ein pechodau ni yn unig, ond hefyd bechodau'r hall fyd ' (I loan 2: 2).

Clown yr adran yma drwy ddyfynnu Paul eto (2 Corinthiaid 5: 14), ' Oherwydd y mae cariad Grist yn ein gorfodi ni, unwaith y'n hargyhoeddir o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw. A bu ef farw dros bawb er mwyn i'r byw beidio a byw iddynt eu hunain mwyach, ond i'r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd . . . Felly os yw dyn yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. ond gwaith Duw yw'r cyfan-Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei bun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfrif troseddau dynion yn eu herbyn, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod. Felly cenhadon yn cynrychioli Grist ydym ni, Fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Yr ydym yn deisyf arnoch, er mwyn Grist, cymoder chwi a Duw '.

GWERTHOEDD DUW YNG NGHRIST

Hyd yma, ymdrechwyd i sefydlu taw ystyr bod yn Gristion yw gweithredu ewyllys Duw; ac ewyllys Duw, Fel y canfyddwn ef yng Nghrist, yw achub y byd o bechod ac o ganlyniadau enbyd pechod, ac UN o ganlyniadau cyflwr pechadurus dyn yw rhyfel a pharodrwydd pobl i ladd a difa'i gilydd a'r byd. Daeth Iesu er mwyn gosod y byd yn ôl ar y llwybr iawn at Dduw, hynny yw, er mwyn cymodi'r byd a Duw. Daeth Iesu i fyd oedd, ac sydd, mewn gwrthryfel. Dygodd ef werthoedd Duw i'r byd, a thrwy fabwysiadu'r gwerthoedd hynny y daw'r byd yn ôl i'w drefn gywir, er mwyn ymbaratoi gogyfer a'r hyn sydd gall Dduw iddo.

Gan taw gwerthoedd Duw a amlygir yn Iesu Grist, Hid oes ryfedd eu bod yn llawer mwy effeithiol na gwerthoedd dyn: ond yr hyn sydd wedi synnu dynion ar hyd y canrifoedd yw pa mor wahanol ydynt i werthoedd dyn- er cymaint y mae dynion yn eu dirmygu a'u gwawdio. Frol ydynt yng ngolwg y byd, , meddylfryd y caethwas' yw condemniad Nietsche (arwr Adolf Hitler) ohonynt; , . . . ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth ' (I Corinthiaid I : l8). Ond dyma'r safonau sydd yn mynd i chwyldroi ac achub y ddynolaeth a'r hollfyd. Grym bywyd yw grym Iesu, grymoedd marwolaeth, ofn a dinistr yw grymoedd pwerau'r byd hwn; daeth Iesu er mwyn llorio'r rheini, , Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder' (Ioan IO: IO). Gan fod neges a gwerthoedd Iesu mor chwyldroadol o wahanol i'r hyn a ddyrchefir gall y gymdeithas ddynol y croeshoeliwyd ef ganddi; Hid am ei fod yn ddyn neis, ond am ei fod yn fygythiad i'r drefn oedd ohoni -gan fod Duw am ddileu'r blaenoriaethau a'r daliadau oedd, ac sydd, yn hollbwysig i ddynionach. Mae gall rymoedd bydol gymaint o'i ofn Fel taw'r hyn sydd orau iddynt hwy ei wneud yn eu tyb eu hunain yw esgus bod yr Arglwydd Iesu yn gyfaill iddynt. Dyna a wna arweinwyr Prydain a'r U.D.A. Defnyddir ei enw i fendithio arfau rhyfel; dywedir, ym Mhrydain, mai pennaeth y wladwriaeth yw pennaeth yr eglwys er bod y teulu brenhinol yn ymgorfforiad o filitaraeth a balchder imperialaidd Prydeinig. 'Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn . . . Hid dyma darddle fy nheyrnas i' (Ioan l8: 36). Gwerthoedd gwahanol iawn sydd gall Iesu-ac yn y rheini y gwelir ewyllys Duw yn weithredol. 'Canys Hid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd ' (Eseia 55: 8).

Nid oes rhaid ond darllen y Bregeth ar y Mynydd, a hynny yn arwynebol, heb fynd heibio i'r Gwynfydau, i sylweddoli pa mor wahanol yw safonau Iesu. Yr addfwyn, trugarog, galarwyr (rhai sy'n poeni yn ddirfawr am gyflwr eu cenedl a'r byd yw'r galarwyr yn ei ystyr Beiblaidd), y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder (h.y. nid y rhai sy'n dymuno ei weld yn unig, ond sy'n teimlo mor gryf yn ei gylch nes mynnu ei sicrhau; gwna'r newynog a'r sychedig eu heithaf er mwyn cael bwyd a diod; dylem ninnau fod yn barod i wneud ein heithaf o fewn terfynau cariad i sicrhau cyfiawnder). Ymhlith y rhai hyn ceir y tangnefeddwyr, neu'r rhai sy'n gweithio dros heddwch. Safonau Duw sydd yma, i'w gwrthgyferbynnu a safonau dyn-y mae'r byd yn ei bechod yn parchu ac yn edmygu grym, awdurdod, cyfoeth, nerth, cadernid, neu *greatness, supremacy, toughness,* ac yn y blaen. Mae Iesu'n troi'r holl werthoedd yma wyneb i waered; yr hyn a ddirmygir gall ddyn sy'n fawr mewn gwirionedd: 'Yr olaf a fyddant flaenaf' (Mathew l9: 3o), 'Oherwydd y lleiaf yn eich plith chwi oll, hwnnw sydd fawr' (Luc 9: 48), 'Rhaid i'r un mwyaf ohonoch fod yn was i chwi. Darostyngir pwy bynnag fydd yn ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pwy bynnag fydd yn ei ddarostwng ei hun' (Mathew 23: I I - l2), ' Gwyddoch fod llywodraethwyr y cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'u gwyr mawr yn dangos eu

hawdurdod drostynt. ond nid felly y mae i fod yn eich plith chwi; yn hytrach, pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi, a phwy bynnag sydd am fod flaenaf yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i chwi, Fel Mab y Dyn, na ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer' (Mathew 2o: 25-28).

Temtiwyd Iesu, fel y gweddill ohonom- ond ar raddfa llawer mwy gall fod ei ddoniau gymaint yn fwy- i ddefnyddio ei allu, dylanwad ac awdurdod i ddod yn arweinydd milwrol. Dyna ergyd un o'r temtasiynau a brofodd yn yr anialwch pan ddangosodd y diafol holl deyrnasoedd y byd iddo, a'i demtio, ' I ti y rhof yr holl arglwyddiaeth ar y rhain a'u gogoniant hwy . . . Felly os addoli di ft, dy eiddo di fydd y cyfan '; golyga addoli'r diafol fabwysiadu dulliau'r diafol-dyna a wnaeth Alexander, Cesar, Napoleon a nifer o ' arwyr ' eraill hanes. ond ateb yr Arglwydd Iesu i'r diafol oedd: 'Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi' (Luc 4: 6-8)-golyga addoli Duw fabwysiadu dulliau Duw, a dyna a wnaeth Iesu, a dyna yw ei ddymuniad ef i ninnau. Ategir hyn eto gan Paul, ' Oherwydd er ein bod yn byw yn y cnawd, nid ar wastad y cnawd yr ydym yn milwrio- canys nid arfau gwan y cnawd yw arfau ein milwriaeth ni, ond rhai nerthol Duw sy'n dymchwel cestyll' (2 Corinthiaid lo: 3-4). Golyga ufuddhau i Dduw ymwrthod ag anrhydeddau gwag y byd hwn, 'Y na synhwyrodd Iesu eu bod am ddod a'i gipio ymaith i'w wneud yn frenin, a chiliodd i'r mynydd eto ar ei ben ei hun' (loan 6: l5), a'r holl rwysg ac ysblander arwynebol y mae dynion mor hoff ohonynt; gweler eto Mathew 2o: 25 a ddyfynnwyd uchod. Sylweddolir pa mor bell yr ydym fel eglwysi wedi ymadael a'r hwn a'n hysbrydolodd.

Os mai drwy goncro'r gelyn yn filwrol yr ewyllysiai Duw ennill y byd i'w deyrnas, gallasai Iesu ei wneud; wrth ddweud wrth ei ddisgybl am weinio'r cledd dywed Iesu, , A wyt yn tybio na allwn ddeisyf ar fy nhad, ac na roddai i mi yn awr fwy na deuddeg lleng o angylion?' (Mathew 26: 53). Ond nid dyma ffordd Duw o weithredu; gall taw dwyn gwerthoedd Duw i'r byd a wnaeth Iesu, nid dyma ffordd Iesu o weithredu chwaith. Meddai wrth Peilat, ' Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn. Pe bai fy nheyrnas i o'r byd hwn, byddai fy ngwasanaethwyr i yn ymladd, rhag i mi gael fy nhrosglwyddo i'r Iddewon ' (loan l8: 36). I Iesu mae dulliau'r ' byd hwn ' yn gyfystyr a dulliau'r diafol, gall fod y , byd hwn ' o dan oruchwyliaeth pechod. Dull y byd hwn o ymrafael yw rhyfela-a'r dulliau mwyaf dieflig, ac felly mwyaf gwrth-Gristnogol, o ryfela yw arfau niwclear, biolegol, a chemegol. Satan sy'n rheoli rhyfel, 'Lladdwr dynion oedd ef o'r cychwyn; nid yw'n sefyll yn y gwirionedd, oherwydd nid oes dim gwirionedd ynddo. Pan fydd yn dweud celwydd, datguddio'i natur ei bun y mae, oherwydd un celwyddog yw er, a thad pob celwydd ' (loan 8: 44). Trychineb ein cyflwr heddiw yw fod cynifer ohonom sydd yn arddel enw Grist yn gwrthod ei gredu ef ac yn lle hynny yn gosod ein ffydd a'n gobaith yn y celwyddau a gyhoeddir gall Satan a'i ddisgyblion.

Rydym ni, yn ein perthynas a'r fasnach arfau, yn llugoer fel eglwysi, yn gwrando, fel y Phariseaid gynt, ar leisiau dynion pechadurus yn -hytrach nag ar lais Duw, ' Dewisach oedd ganddynt glod gan ddynion na chlod gan Dduw' (loan l2: 43). Ymdrechwn blesio'r mwyafrif er mwyn i bawb sôn yn dda amdanom gall anghofio rhybudd Iesu, 'Gwae chwi pan fydd pob dyn yn eich canmol, oherwydd felly'n union y gwnaeth eu tadau i'r gau-broffwydi' (Luc 6: 26). Erledigaeth ac amhoblogrwydd a brofwyd gall y gwir broffwydi, ac

yn y traddodiad hynny y mae Iesu am i'w eglwys fod: ' Gwyn eich byd pan fydd dynion yn eich gwaradwyddo a' ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn [celwydd yw prif arf Satan], o'm hachos i. Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd, felly yn wir yr erlidiodd dynion y proffwydi oedd o'ch blaen chwi' (Mathew 5: Il-l2). Wrth astudio'r Hen Destament fe welwn wirionedd y gosodiad yma; medd awdur ail Cronicl, 'ond yr oeddynt hwy yn gwatwar cenhadon Duw, ac yn tremygu ei eiriau er, ac yn gwawdio ei broffwydi er; nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd iachâd' (2 Cronicl 36: l6). Cyhuddwyd Eleias o rod ' . . . yr hwn sydd yn blino Israel' gan y brenin Ahab (I Brenhinoedd l8: l 7); pwyswyd ar Michea i broffwydo yr hyn y dymunai'r brenin a'i lys ei glywed, Fel y gwnaeth nifer o 'broffwydi' eraill, 'A dywedodd

Michea, Fel mae byw yr Arglwydd, yr hyn a ddywedo yr Arglwydd wrthyf, hynny a lefaraf fi " ac wedi rhoi'r rhybudd rod y rhyfel a baratowyd amdani yn mynd i rod yn drychineb, derbyniodd y proffwyd ei wobr: ' Fel hyn y dywed y brenin, Rhowch hwn yn y carchardy, a bwydwch ef a bara cystudd ac a dwfr blinder' (I Brenhinoedd 22: l4,27). Yn ol Jeremeia, y rhai a gamarweiniai Israel oedd y rhai a ddatganai ' Heddwch, heddwch ; er nad oedd heddwch' (Jeremeia 6: l4) am rod y genedl yn para toi am ryfel ac yn caniatáu gormes ac anghyfiawnder; dyma eiriau'r gau -broffwydi: , Yr Arglwydd a ddywedodd, Bydd i chwi heddwch; ac wrth bob un sydd yn rhodio wrth amcan ei galon ei bun y dywedant, Ni ddaw arnoch niwed . . . Wele fi yn erbyn y proffwydi, medd yr Arglwydd, y rhai a lyfnhânt eu tafodau . . . y rhai a broffwydant freuddwydion celwyddog . . . ac a'u mynegant, ac a hudant fy mhobl a'u celwyddau, ac a'u gwagedd' (Jeremeia 23: l7,3l-32). Y n y cyfnod pan oedd y genedl o clan arweiniad y brenin Sedeceia yn paratoi am ryfel yn erbyn ymerodraeth fawr Babilon, gwyddai Jeremeia nad oedd ond dioddefaint ar raddfa eang i ddod o'r fath ffwlbri, , Paham y byddwch feirw, ti a'th bobl, trwy y cleddyf, trwy newyn, a thrwy haint' (Jeremeia 27: l3),_dyma eiriau cyfoes! Neges y proffwyd oedd ar i'r genedl roi ei ffydd yn Nuw'r Achubydd, beth bynnag a ddigwydd yn y tymor byr. Fe fyddai'r Arglwydd yn sicrhau dyfodol a pharhad ei bobl wedi diflaniad yr ymerodraeth rwysgfawr," .Ac nac, ofna. di, a fy ngwas Jacob, medd Yr Arglwydd, ac na frawycha di, a Israel: canys wele, mi a'th achubaf di o bell,

a'th had o dir caethiwed; a Jacob a ddychwel ac a orffwys, ac a gaiff lonydd, ac ni bydd a'i dychryno ' (Jeremeia 3o: lo). Ond nid dyma'r math o eiriau y mae pobl yn dymuno clywed, Yna y tywysogion a ddywedasant wrth y brenin, Rhodder, atolwg, y gwr hwn i farwolaeth: oblegid fel hyn y mae efe yn gwanhau dwylo'r rhyfelwyr a adawyd yn y ddinas holl, a dwylo'r holl bobl, wrth ddywedyd wrthynt yn ol y geiriau hyn: oherwydd Did yw y gwr hwn yn ceisio llwyddiant i'r bobl hyn, ond niwed ' (Jeremeia 38: 4); cyhuddiadau sydd yn gwbl gyfoes -bradwr oedd Jeremeia a ochrai gyda'r gelyn ac fe'i carcharwyd. Gwireddwyd proffwydoliaeth Jeremeia; mae rhoi hyder a gobaith yng ngrym y cledd yn sicr o arwain at ddinistr a dioddefaint. Proffwyd arall a enynnodd lid yr awdurdodau oedd Amos, gwaharddwyd ef rhag pregethu ym Methel am mai yno yr oedd y brenin a'i lys yn ' addoli " a dywedwyd wrtho i fynd yn ôl i'w fro ei hun a pheidio a tharfu'r genedl. Meddai Amos, '. . . cas ganddynt a geryddo yn y porth, a ffiaidd ganddynt a lefaro yn berffaith ' (Amos 5: l0). Dywed Iesu wrthym am fod yn nhraddodiad y gwroniaid yma.

Credaf, yn gwbl ddiffuant, taw oherwydd ein bod wedi bod mor ddi-asgwrn-cefn yn ein cenhadaeth oll- bwysig i'r byd ar hyd y canrifoedd y mae Duw yn awr yn caniatáu i'n heglwysi ddihoeni a marw: 'Gwn am dy weithredoedd; Nid wyt nag oer na phoeth. Gwyn fyd na fyddit yn oer neu yn boeth! Ond gall mae claear ydwyt, heb fod nag yn boeth nag yn oer, fe'th boeraf allan o'm genau' (Datguddiad 3: l5). Y r un yw ergyd geiriau Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd: ' Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, a pha beth yr helltir er? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed gall ddynion' (Mathew 5: l3). Nid yn unig ein bod wedi mynd i oddef y drefn fydol, ond rydym yn ei chefnogi a'i hybu yn agored, yn caniatáu i'n hieuenctid ymuno a lluoedd Satan, a'u bendithio yn enw'r Duw a fynna eu dileu. Rydym yn nhraddodiad y gau-broffwydi, yn cyhoeddi'r hyn y mae pobl yn dymuno ei glywed er mwyn iddynt deimlo'n gysurus a hunanfodlon, yn gwrando ar ' Y rhai a ddywedant wrth y gweledyddion, Na welwch; ac wrth y proffwydi, Na phroffwydwch i ni bethau uniawn; traethwch i ni weniaith, proffwydwch i ni siomedigaeth [' *illusions'* yw'r Saesneg yma]; Ciliwch o'r ffordd, ciliwch o'r llwybr; perwch i Sanct Israel beidio a ni' (Eseia 3o: l0- ll). Onid dyma union gais yr awdurdodau o'r eglwys, ac nid yr awdurdodau yn unig, ond y trwch ohonom?

Er mwyn ennill y byd i Dduw rhaid i ddilynwyr Iesu, Fel eu meistr o'u blaen, ymwadu a dulliau'r byd, ymwadu a hwy eu hunain -y natur ddynol sydd dan awdurdod pechod, a chodi'r groes a'i ganlyn ef (Marc 8: 34.). Rhaid i greadur newydd fabwysiadu dulliau newydd: 'Felly, os yw dyn yng Nghrist, y mae yn greadigaeth newydd, aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma' (2 Corinthiaid 5: l7) medd Paul; ac eto, mae'r Cristion ' . . . wedi diosg yr hen natur ddynol, ynghyd a'i gweithredoedd, a gwisgo . . . y natur ddynol newydd sy'n cael ei hadnewyddu ar ddelw ei Chreawdwr, i adnabod Duw' (Colosiaid 3: 9-lo); ac mae'r adnabyddiaeth yma o Dduw yn newid yr holl werthoedd a newid holl ystyr a phwrpas bywyd-nid byw er mwyn y cnawd a wneir rhagor, nid byw er mwyn cynnal y byd a'i drefn, ond er mwyn ei drawsnewid er mwyn prysuro dyfodiad trefn Duw yn ei gogoniant-' Peidiwch a chydymffurfio a'r byd hwn, ond gadewch i Dduw eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl a' ch galluogi i ganfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef' (Rhufeiniaid l2: 2). Mae holl ganolbwynt ymwybyddiaeth y dyn sydd yng Nghrist wedi newid-nid fy nymuniad i sy'n bwysig -ond ei ddymuniad ef. Arwydd o ufudd-dod yr Arglwydd Iesu i ewyllys Duw yw'r weddi yng Ngethsemane-' Cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Eithr nid yr hyn a fynnaf i ond yr hyn a fynni di' (Marc l4: 36). Mae persbectif dyn yn newid, edrycha ar y byd o ogwydd gwahanol, a gwêl ei hun, nid fel canolbwynt y greadigaeth yn rhagor, gyda phob dim yn troi o'i gylch; ond fel rhan fach ddigon di-nod, ond eto holl-bwysig, yn adeiladwaith y corff; un o greaduriaid Duw, gyda phwrpas dwyfol i'w fodolaeth. Gwêl pawb arall yn yr un goleuni, felly, yn greaduriaid o ddwyfol ordinhad na ellir eu dinistrio na dymuno eu dinistr (mae hynny cyn waethed a'r dinistr ei hun) am mai gwrthrychau cariad Duw ydynt oll, a'i ddymuniad ef yw eu hachub. ond nid dyna ewyllys y mwyafrif ohonom; rydym yn dal yng ngafael pechod a dulliau Satan, ac yn lle cydnabod hynny, a mynnu newid drwy droi at Dduw mewn edifeirwch er mwyn gallu dilyn llwybr bywyd, rydym yn barhaus wrthi'n ymdrechu i chwilio am ffyrdd i gyfiawnhau ein hunain am ddilyn llwybr marwolaeth. Hynny yw, rydym yn gosod ein hewyllys ein hunain o flaen ewyllys Duw, neu ein teyrnas ni *o* flaen teyrnas Dduw. Nid oes ymdeimlad *o* angen edifeirwch *o'n* mewn, am ein bod mor hunanfodlon a sicr ohonom ein hunain. Mae rhai yn ein plith yn fodlon lled-edifarhau ar lefel bersonol-ond gelwir arnom i edifarhau ar bob lefel *o'n* bodolaeth, fel aelod *o*

genedl daeog a gwladwriaeth orthrymus, fel aelod *o* wareiddiad sy'n dibynnu ar drueni pobl eraill i gynnal ei llewyrch ei hun, fel aelod *o'r* hi! gwyn sy'n gormesu eraill, ac fel aelod *o* ddynoliaeth sydd mewn gwrthryfel yn erbyn Duw. Ar lefel genedlaethol *y* mae'r proffwydi, megis *J*eremeia, yn sôn am edifeirwch (a rhaid troi i'r Hen Destament cyn *y* gellir deall *y* term yn iawn gall Dod yw Iesu yn esbonio'r gair ond yn ei gymryd yn ganiataol *fod* ei wrandawyr Iddewig yn ei ddeall), 'dychwelyd' yw'r gair a ddefnyddir am *yr* Hebraeg , *shwb* ' gall amlaf: ' Israel, os dychweli, dychwel ataf fi, medd *yr* Arglwydd: hefyd os rhoi heibio dy ffieidd-dra oddi ger *fy* mron, yna ni'th symudir. A thi a dyngi, Byw yw *yr* Arglwydd, mewn gwirionedd, mewn barn, ac mewn cyfiawnder: a'r cenhedloedd a ymfendithiant ynddo; ie, ynddo ef yr ymglodforant' (Jeremeia 4: l-2). Yma mae'r proffwyd yn galw ar *y* genedl i edifarhau ar lefel genedlaethol, yn ei hymwneud gwleidyddol, am iddi gefnu ar Dduw; sylwer taw ei gweithredoedd sy'n rhaid newid wrth droi at Dduw, ac wrth roi arweiniad mewn cyfiawnder i'r cenhedloedd. Ac meddai Eseeiel am *y* genedl wrthnysig eu bod yn esgus dilyn arweiniad Duw ond yn gwrthod gweithredu, , Deuant hefyd atat fel *y* daw *y* bobl, ac eisteddant *o'th* flaen fel *fy* mhobl, gwrandawant hefyd dy eiriau, ond nis gwnânt hwy: canys a'u geneuau *y* dangosant gariad, a'u calon sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod . . . canys gwrandawant dy eiriau, ond nis gwnânt hwynt ' (Eseeiel 33: 3l -32). Ceir *yr* un gwyn am agwedd *y* genedl drwy'r Hen Destament-dweud eu bod yn dilyn Duw, ond mewn ffaith yn dilyn ffordd ddieithr iddo ac yn gwrthod cydnabod hynny. Yn *y* cyflwr hynny *y* canfyddwn ein hunain heddiw fel aelodau *o* genedl, gwladwriaeth a gwareiddiad sy'n honni eu bod yn Gristnogol ond yn gwrthod cydnabod eu pechodau -yn wir, yn dweud *fod* eu pechodau yn rhinweddau, h,y. *fod,* arfau rhyfel yn gwneud daioni: ' Gwae *y* rhai a ddywedant am *y* drwg, da yw; ac am *y* da, drwg yw; gall osod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dywyllwch: *y* rhai a osodant chwerw am felys, a melys am chwerw ' (Eseia 5: *2o),* dyma yw cabledd yn erbyn *Yr* Ysbryd Glan (Marc3: 29-3o).

Ein dyletswydd ni fel eglwysi yw mynegi'r gwirionedd i bob!. Mae'r ffaith nad ydym yn barod i wneud hynny yn sicrhau ein tranc a'n diwedd, oherwydd nid gwaith Duw a wnawn: ' Pan ddywedwyf wrth y drygionus, Gan farw y byddi farw; a ni rybuddier, ac a ni leferi i rybuddio y drygionus oddi wrth ei ddrycffordd, fel y byddo byw; y drygionus hwn a fydd farw yn ei anwiredd: ond ei waed ef a ofynnaf fi ar dy law di' (Eseciel 3: l8). Dyma osodiad a ddylai sobri pawb ohonom-y ni sydd yn gyfrifol am gyflwr ein cenedl, ein gwareiddiad a'n byd-a byddwn yn atebol gerbron Duw am y cyfan sy'n digwydd iddynt. Beth a wnaethom er mwyn sicrhau rod y cyfan yn cael cyfle i weithredu ewyllys Duw? Yr ateb i'r rhan fwyaf ohonom, os y byddwn yn onest, yw DIM! Mae'n bryd inni ymysgwyd a chodi oddi ar ein cadeiriau esmwyth i *wneud* rhywbeth dros heddwch y byd.

Ond gadewch i ni fod yn onest a ni ein hunain eto; mae'r rhan fwyaf ohonom yn ddigon hapus a phethau fel y maen nhw--newid ar y drefn yw'r peth alar y dymunwn ei weld. Nid ydym am golli'r cyfoeth a'r breintiau sydd gennym -ac felly rydym yn barod i , amddiffyn' ein hunain rhag bygythiad i'r drefn hynny. Mae'r comiwnyddion, yn ein tyb ni, yn fygythiad i'r drefn- maent yn bygwth ein ffordd *ni* o fyw. Maent yn bygwth ein safonau byw *ni.* Felly, mae'n rhaid i ni rod yn barod i amddiffyn ein hunain rhag y bygythiad yma. Rhaid cael llu o arfau a chytundebau milwrol: , Gwae y rhai a ddisgynnant i'r Aifft am gynhorthwy, ac a ymddiriedant mewn meirch, ac a hyderant ar gerbydau *[chariots -yr* erfyn mwyaf effeithiol yn nhechnoleg milwrol y cyfnod, am eu bod yn aml; ac ar ŵyr

meirch, am eu hod yn nerthol iawn: ond rod edrychant am Sanct Israel, ac ni cheisiant yr Arglwydd' (Eseia 3 I : I). Ond yn waeth na'r cyfan teimlwn rod cyfiawnhad gennym i fygwth a pharatoi i lofruddio miliynau ar filiynau o blant a dinasyddion cram yr Undeb Sofietaidd; mae'n hobsesiwn yn barod yn gyfrifol am farwolaeth miliynau yn y Trydydd Byd y gellid eu harbed yn hawdd ond i ni ryddhau ychydig o'r adnoddau a ddefnyddir i gynnal ein polisïau Satanaidd. Ein hunanoldeb ni sydd wrth wraidd y cyfan, ein materoliaeth a'n hariangarwch pechadurus ni sydd yn mynegi eu hunain mewn arfau niwclear - mynegiant o'r modd y mae'n gwerthoedd ni o dan reolaeth y diafol mewn gwirionedd. Rydym yn creu cymdeithas sy'n credu fod safon byw a phethau materol yn bwysicach na bywydau pob!. *'Ni* all neb wasanaethu dau feistr; oherwydd bydd un ai'n casáu'r naill ac yn caru'r llall, neu'n deyrngar i'r naill ac yn dirmygu'r llall. Ni allwch wasanaethu Duw ac Arian' (Mathew 6: 24). Addoli arian a wnawn wrth fod yn barod i fynd yn gwbl groes i ewyllys Duw er mwyn amddiffyn ein safonau materol. Dyna, wedi'r cyfan, yw hanfod pob rhyfel: ' o ble y daeth ymrafaelion a chwerylon yn eich plith? onid o'r chwantau sy'n milwrio yn eich aelodau. Yr ydych yn chwennych ac yn methu cael, ac felly yr ydych yn llofruddio; yr ydych yn eiddigeddu ac yn methu meddiannu, ac felly yr ydych yn ymladd a rhyfela' (Iago 4: I-2), , Oherwydd gwraidd pob drwg yw cariad at arian' (I Timotheus 6: Io). Dyma sylfaen yr holl sefyllfa drychinebus 'bresennol, ein hariangarwch a'n hysfa i fod yn nerthol a phwerus, , Oherwydd lle bynnag y mae cenfigen ac uchelgais yno hefyd y mae anhrefn a phob gweithred ddrwg' (Iago 3: I6). Nid ydym yn fodlon cydnabod hynny, ac felly ni allwn edifarhau a wynebu'r gwirionedd, y goleuni sydd yng Nghrist, 'A dyma'r condemniad, i'r goleuni ddod i'r byd ond i ddynion garu'r tywyllwch yn hytrach na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd yn ddrwg. Oherwydd y mae pob un sy'n gwneud drwg yn casáu'r goleuni, ac nid yw'n clod at y goleuni rhag ofn i'w weithredoedd gael eu dadlennu' (Ioan 3: I9-2o).

Nid cyfiawnder a heddwch byd eang yw ewyllys y rhan fwyaf llethol ohonom, ond grym hunanol ac uchelgeisiol, a chyfoeth a digonedd o bob peth ' da ' -drwy hynny yr ydym yn sicr o genfigennu wrth rai sy'n fwy llewyrchus, cyfoethog a grymus na ni ein hunain. Dyna'n perthynas fel unigolion a'n gilydd, ac fel gwladwriaethau a chenhedloedd, y drefn gystadleuol hon yw'r drefn yr ymfalchïwn ynddi, a gwnawn ein heithaf i'w chynnal. Yn ein ffordd o fyw dyrchafwn ein trefn arwynebol ni a dirmygwn deyrnas ein Harglwydd oherwydd ' Nid bwyta ac yfed yw teyrnas Dduw, ond cyfiawnder a heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glan . . . Gadewch inni felly, geisio'r pethau sy'n arwain i heddwch ac yn adeiladu perthynas gadarn a'n gilydd' (Rhufeiniaid I4: I7, I9). Ni allwn stumogi'r fath sentiment rhamantus; realiti i ni yw hunanoldeb, grym, casineb ac ofn a'r ymdrech i osod ein hunain uwchlaw eraill. Mynegir hyn yn ein gwleidyddiaeth, gwleidyddiaeth yw rhyfela, parhad o bolisïau gwleidyddol pan fo perswâd a diplomyddiaeth wedi methu. Mae'n pleidiau gwleidyddol yn adlewyrchu barn y mwyafrif llethol o boblogaeth y gwledydd yma fod ein ffordd ni o fyw yn well na rhai pawb arall a bod angen ei gwarchod hyd yr eithaf (sawl gwaith y clywn ni ar y cyfryngau pa mor dda, gwell a gorau yw pethau Prydeinig na phob dim arall yn y byd?), felly mae gennym bawl (ddwyfol!) i'w hamddiffyn a thrais. Down i'r farn yma am ein bod yn gysurus ein byd o dan y drefn bresennol-nid ydym am i'r tlodi llethol a'r newyn sydd yn y Trydydd Byd ein hanesmwytho o gwbl-y cyfan y carem ei wneud yw cynnal a gwella ein safon byw ein hunain: dyma'r unig werth a adlewyrchir yn ein gwleidyddiaeth sydd yn llwyddo i gael ymateb gall drwch y boblogaeth. Nid yw gwerthoedd Fel cenedl, iaith, diwylliant hyd yn oed yn poeni dim arnom heb sôn am

gyfiawnder a heddwch, cyhyd ag a bo'r punnoedd yn dal i lifo i'n pocedi. Gwneir defnydd o'r holl adnoddau sydd gennym er mwyn sicrhau parhad y drefn sydd ohoni gall gynnwys y gyfundrefn gyfreithiol, a lunnir er mwyn cynnal y sefydliad. Drwy'r gyfundrefn honno dywed yr awdurdodau fod lladd ar lefel unigolyn yn drosedd, ond bod lladd ar ran y wladwriaeth yn 'arwrol'. Wrth gyfarch Duw gofyn y Salmydd iddo (gan gymryd ateb nacaol yn ganiataol) 'A fydd cynghrair rhyngot ti a llywodraeth distryw sy'n cynllunio niwed trwy gyfraith? Cytunant a'i gilydd am fywyd y cyfiawn, a chondemnio'r dieuog i farw ' (Salmau 94: 2o-2 l). Er hynny, dywedwn ni fod Duw *yn* cynghreirio a, a hyd yn oed yn bendithio gweithredoedd ysgeler y , llywodraethau distryw' sy'n prysur gynllunio marwolaeth i filiynau diniwed. Y meddylfryd cwbl wrth-Gristnogol yma sy'n sicrhau ein bod yn gallu cefnogi parodrwydd ein llywodraeth i lofruddio miliynau o blant diniwed yr Undeb Sofietaidd, os daw i'r pen draw, er mwyn sicrhau fod y drefn bresennol yn parhau.

Nid ydym yn gallu deall y ffaith fod trigolion yr Undeb Sofietaidd yn digwydd bod yn credu yr un peth am eu trefn a'u cymdeithas hwythau. Onid ein trefn ni yw'r un orau yn y byd? Mae unrhyw un sy'n amau a gwrthwynebu hynny yn hynod o beryglus a rhaid i ni fod yn barod i'w wrthwynebu drwy fygwth ei ddifa. Rydym ni yn yr eglwysi, gall mwyaf, yn perthyn i'r dosbarth sy'n gysurus eu byd ac mae gennym ' *vested interest'* mewn cadw pethau fel y maen nhw. *'Better dead than red'* yw'r sentiment yn aml, hynny yw, mae'n well lladd a marw na cholli eiddo personal a ffordd o fyw! A all , Cristnogion ' iselhau eu credo i'r lefel yma o wrth-Gristnogaeth? Gallwn, yn ddigon rhwydd, oherwydd dyna'r union gyflwr y mae'r trwch ohonom ynddo!

Pa Arglwydd, felly, yw ein harglwydd ni? Beth sydd yn dod flaenaf yn ein bywydau? Pwy ydym ni'n ei ddilyn mewn gwirionedd?

I fynd yn ôl at y pwynt a godwyd ar y dechrau'n deg: A ydym yn wareiddiad Gristnogol? o astudio'n sefyllfa yr ateb yw, NA; a dweud y gwir yr ydym yn perthyn i wareiddiad sy'n wrth-Gristnogol yn ei hanfod, gall mai ar fateroliaeth a grym y mae wedi gosod ei sylfeini. Nid yw'r eglwys wedi bod yn gwrando ar lais ei Harglwydd, ond ei wadu dro ar ôl tro, trwy fendithio materoliaeth fel nod bywyd, a bendithio rhyfel i'w hamddiffyn. Mae'r ceiliog ar fin canu'r drydedd waith. Edifarhawn cyn iddo fynd yn rhy hwyr.

Daeth yr Arglwydd Iesu i'r byd a gosod dewis gerbron y ddynoliaeth -naill ai neu. Naill ai ffordd Duw, neu ffordd y byd. Dyma a wnawd gall broffwydi'r Hen Destament hefyd: ' Ac Eleias a ddaeth at yr holl bobl, ac a ddywedodd, Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl? os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol er; ond os Baal, ewch ar ei ôl yntau ' (I Brenhinoedd l8: 2l) ; ac meddai Jeremeia, , Fel hyn y dywed yr Arglwydd; Wele fi yn rhoddi ger eich bran ffordd einioes, a ffordd angau ' (2l: 8). Gesyd Paul yr un dewis yn ddigon pendant' . . . a'ch dewis yw, naill ai hod yn gaethweision i bechod, a marwolaeth yn dilyn, neu bod yn gaethweision i ufudd-dod a chyfiawnder yn dilyn' (Rhufeiniaid 6: l6). Dyna a
geir yn y Bregeth ar y Mynydd-amlinelliad o ffordd Duw o weithredu yn ein byd, a hynny'n cael ei osod fel dewis i ninnau-naill ai Duw neu Arian, dilyn y llwybr cul neu'r llwybr llydan, mynd drwy'r porth cul neu'r un llydan, adeiladu ein tai ar graig neu ar dywod, ceisio'n gyntaf fanion hunanol-bwydydd a dillad, neu geisio'n gyntaf ei Deyrnas a'i Gyfiawnder ef (penodau 7 ac 8 o efengyl Mathew). Dyma'r dewis! Nid oes modd

osgoi'r dewis hwn, mae Iesu yn ei Berson wedi herio'r holl fyd ag er; Grist yw creisis y byd; mae ei ddyfodiad wedi ein gosod mewn argyfwng a'n gorfodi i ymateb drwy ddewis i fod dros Iesu neu yn ei erbyn, nid oes ffordd ganol i'w chael. 'Os nad yw dyn gyda mi, yn fy erbyn i y mae, ac os nad yw'n casglu gyda mi, gwasgaru y mae ' (Luc I I: 23), yw her Iesu ei hun.

Trwy'r Hen Destament ceir cronicl o alwadau Duw ar i bobl arbennig rod yn dystion iddo er mwyn goleuo'r cenhedloedd ynglŷn â'r ffordd y dylent drefnu eu bywydau cenedlaethol a rhyng-genedlaethol, a mynd ati drwy hynny i achub y byd. Mae dulliau gweithredu a deddfau cenedl o'r fath yn gwbl wahanol i ddulliau'r byd, , A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gall ddywedyd; Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Myfi yw yr Arglwydd eich Duw. Na wnewch yn ôl gweithredoedd gwlad yr Aifft, yr hon y trigasoch ynddi; ac na wnewch yn ol gweithredoedd gwlad Canaan, yr hon yr ydwyf yn eich dwyn chwi iddi; ac na rodiwch yn eu deddfau hwynt. Fy marnedigaethau i a wnewch, a'm deddfau i a gedwch, i radio ynddynt: myfi yw yr Arglwydd eich Duw ' (Lefiticus l8 : l-4).

Gesyd dewis ac argyfwng o'r math yma dyndra rhwng arddelwyr y ffydd ac eraill sydd am i'r drefn fydol / baganaidd barhau. Wedi'r cwbl datganodd Iesu ei fod wedi dod a chledd i'r byd (Mathew IO: 34); Hid cyfiawnhad drwy drais sydd yma ond gosodiad o ffaith. Mae fersiwn Luc yn dangos hynny drwy ddefnyddio'r gair 'ymraniad ' yn hytrach na ' cledd '. Canlyniad ei weinidogaeth a'i farw a'i atgyfodiad fyddai rhannu pobl, y rhai sydd am ymateb iddo a newid y byd, a'r rhai sydd am wrthwynebu newid sylfaenol a chario ymlaen o dan y drefn bresennol; dyma ffordd y mwyafrif ohonom. Fe gafwyd y tensiwn yma o fewn yr hen genedl, Fel yng nghenedl y Cymry heddiw, yr ychydig am gadw yn ffyddlon i ewyllys Duw a'r mwyafrif am fynd Fel gweddill y byd, ond eto yn parhau i gymryd arnynt eu bod yn addoli Duw trwy ddefodaeth ac ar air ond Hid mewn gweithred: 'Beth yw lluosogrwydd eich aberthau i mi? medd yr Arglwydd . . . Na chwanegwch ddwyn offrwm ofer: arogldarth sydd ffiaidd gennyf; ni allaf addef y newyddloerau na'r Sabothau, cyhoeddi cymanfa; anwiredd ydyw, sefyr uchel Ŵyl gyfarfod. Eich lleuadau newydd a'ch gwyliau gosodedig a gasaodd fy enaid: y maent yn faich arnaf; blinais yn eu dwyn. A phan estynnoch eich dwylo, mi a guddiaf fy llygaid rhagoch: hefyd pan weddïoch lawer, ni wrandawaf: eich dwylo sydd lawn o waed. Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bran fy llygaid; peidiwch a gwneuthur drwg; Dysgwch wneuthur daioni; ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig, gwnewch farn i'r amddifad, dadleuwch dros y weddw' (Eseia l: I I - l7). Cronicl o'r tyndra hyn yw'r Hen Destament.

Enghraifft odidog o'r tyndra yma ar waith yw'r hanes am ddewis brenin i'r genedl am y tro cyntaf. I'r Iddew da (fel i'r Cristnogion cynnar) cid oedd angen brenin; Duw oedd, ac sydd, frenin. Cynrychiolwyd y safbwynt yma gall Samuel: 'Er hynny y bobol a wrthodasant wrando ar lais Samuel; a dywedasant, Nage eithr brenin fydd arnom ni fel y byddom ninnau hefyd fel yr holl genhedloedd' (I Samuel 8: l9-2o), enghraifft odidog o ddilyn y llif, a gwrthod ymlynu wrth ewyllys Duw. Yr ysfa bechadurus o daeogaidd yma yw'r rheswm am gyflwr Cymru heddiw-ofni bod yr hyn y creodd Duw ni i fod, a dymuno bod yr un peth a'r mwyafrif er mwyn gallu dod ymlaen yn y byd. Fel Cristnogion Cymru, dilynwn y rhelyw, er enghraifft, drwy ddyrchafu teuluoedd dynol uwchlaw Duw a chreu

eilunod ohonynt (arwydd o hynny yw'r ffaith y gallwch ddefnyddio enw Iesu fel rheg, ac ni wna neb boeni dim, neu ei gablu: ond beiddiwch ddweud rhywbeth yn erbyn y teulu brenhinol!). Mae nifer o Ymneilltuwyr sy'n canu gydag arddeliad: 'Yma nid oes gennym ni Neb yn Arglwydd ond Tydi Ac ni cheisiwn arall chwaith Oesoedd dragwyddoldeb maith', yn glafoerio wrth ddotio uwchben arglwyddi daearol, ac yn credu fod Gael y fath , anrhydeddau ' yn odidocach wobr na theyrnas Duw ei bun. Yr hyn a geisiwn amdano mewn bywyd yw'r hyn a addolwn. Onid yw hyn yn enghraifft odidog o ddweud un peth a gwneud yn gymwys i'r gwrthwyneb? Mae'r gyffes yn iawn, y weithred sy'n methu-a honno sydd bwysicaf yng ngolwg yr Arglwydd Iesu.

Cwyn y proffwydi yn erbyn y genedl oedd eu bod yn cefnu ar arweiniad Duw a dilyn y llifeiriant: ' Er hynny gwrthryfelasant i'm herbyn, ac ni fynnant wrando arnaf. . . [gall ddweud] Byddwn fel y cenhedloedd, fer teuluoedd y gwledydd i wasanaethu pren a maen ' (Eseciel 2o: 8, 32).

Mae aelodau eglwys Iesu Grist yng Nghymru heddiw yn union yr un sefyllfa, nid yw ein gwerthoedd ddim gwahanol i werthoedd weddill dynoliaeth nad ydynt yn arddel Grist-dod ymlaen yn y byd, gwneud yn dda, chwilio am bleser a chyfoeth arwynebol a hunanol, ennill statws ac anrhydeddau. Anogwn ein plant i beidio a phoeni am eraill, ond i ymroi i sicrhau llwyddiant eu hunain,-dyna a wna'n cyfundrefn addysg gystadleuol sy'n Gael ei dyrchafu gennym i safle sy'n llawer pwysicach nag ewyllys Duw. Treuliwn ein cyfnod o astudio'r ysgrythurau (os poenwn wneud hynny o gwbl) i'w lliniaru a'u glastwreiddio, 'Nid oedd Iesu'n golygu hynny mewn gwirionedd. Mae'n rhaid taw pobl eraill mewn sefyllfaoedd eraill a ddymunai wneud y pethau yma!' Pa mor druenus o gyfeiliornus y gallwn fod? Mae Iesu am i ni fabwysiadu ei werthoedd a'i ddulliau o weithredu NAWR. 'Hyn, felly, yr wyfyn ei ddweud ac yn ei argymell arnoch yn yr Arglwydd, eich bod bellach i beidio a byw fel y mae'r cenhedloedd yn byw . . . Byddwch yn efelychwyr Duw . . . ' (Aeafasid 4: l7), ac aid yw Duw yr un peth a phawb arall!

Dymuniad Duw yn Iesu Grist yw ar i ni ddilyn ei werthoedd a'i esiampl ef yn ein bywydau bob dydd NA WR, oherwydd y mae Teyrnas Dduw yn ein plith ni NAWR, ac y mae'r dewis o'i dderbyn neu ei wrthod yn cael ei gynnig drwy gariad Duw i ni NAWR: 'Gan hynny, fel y mae'r Ysbryd Glan yn dweud: "Heddiw, os clywch ei lais er, peidiwch a chaledu eich calonnau fel yn y gwrthryfel" , (Hebreaid 3: 7-8). Y dewis yw naill ai dilyn Iesu, sy'n arwain i achubiaeth a gwaredigaeth neu ddilyn ffordd y byd, y llif, y mwyafrif, sy'n arwain i farwolaeth.

Yn ein hymwneud a rhyfel mae hyn yn ei fynegi ei hun eglura ffordd y byd yw ffordd y born, dyma'r llwybr eang sy'n arwain i ddistryw. Moddion angau yw arfau niwclear, ac wrth ymgynghreirio a'r grym hwn y mae'r byd wedi ei ildio'i hun i awdurdod y diafola'r canlyniad fydd marwolaeth: ' Am i chwi ddywedyd, Gwnaethom amod ag angau, ac ag uffern y gwnaethom gynghrair; pan ddel ffrewyll lifeiriol, ni ddaw atom ni: canys gosodasom ein gobaith ar gelwydd, a than ffalster y llechasom . . . A diddymir eich amod ag angau, a'ch cynghrair ag uffern ni saif; pan ddel y ffrewyll lifeiriol, byddwch yn sathrfa iddi ' (Eseia 28: l5, l8). Os rhowch eich ffydd a'ch hyder mewn moddion dinistr, dinistr a gewch, , . . . oherwydd bydd pawb sy'n cymryd y cleddyf yn marw trwy'r cleddyf', meddai Iesu (Mathew 26: 52). Nid oes modd osgoi canlyniadau yr hyn a wnawn neu yr hyn yr ydym yn barod i'w wneud: 'Yr hyn a hello dyn, hynny hefyd a fed efe', medd Paul

(Galatiaid 6: 7). Dywed y Salmydd yntau fod herio trefn Duw yn esgor ar ganlyniadau hunanddinistriol: ' Yn wir, y mae'r drygionus yn hogi ei gleddyf eto, yn plygu ei fwa a'i wneud yn barod; y mae'n darparu ei arfau marwol, ac yn gwneud ei saethau'n danllyd. Y mae'n feichiog o ddrygioni, yn cenhedlu niwed ac yn geni twyll. Y mae'n cloddio pwll ac yn ei geibio, ac yn syrthio i'r twll a wnaeth. *Fe ddychwel ei niwed arno ef ei hun, ac ar ei ben i fy disgyn ei drais'* (Salmau 7 : l2-l6).

Yr hyn sy'n drychinebus o drist i'w gofnodi yw'r ffaith ddiymwad
fod y trwch ohonom, Gymry, yn rhoi'n gobaith a'n hyder ym mhethau a grymoedd materol a marwol. Rydym yn gwbl ddifater ynglŷn â'r dioddefaint a achoswn i eraill drwy ein ffordd o fyw. Er ein hod yn galw ein hunain yn Gristnogion rydym, yn ôl ein gweithredoedd, yn perthyn i blaid yr Anghrist. Mae'n hen bryd inni edifarhau a newid ein cyfeiriad mewn bywyd, 'Canys paham y byddwch feirw?'

Cariad, trugaredd, cyfiawnder a chymod yw ffyrdd yr Arglwydd Iesu. 'Duw cariad yw ' yw'r adnod gyntaf i bob un ohonom ei dysgu-a dyna sylfaen yr efengyl a ddygwyd i'n byd pechadurus gall Iesu; mae pob dim arall yn deillio o'r hanfod yma ac yn iswasanaethgar iddo: rheolir barn a digofaint gall y cariad pell-gyrhaeddol hwn. Bu'r Iesu'n ddig at ei wrthwynebwyr, fe geryddodd yn hollt, ond oherwydd ei gariad nid o gasineb '. . . oherwydd ni ddeuthum i farnu'r byd ond i achub y byd' (Ioan l2: 47). 'Yr wyf fi'n ceryddu ac yn disgyblu'r rhai a garaf; bydd selog, felly, ac edifarha' (Datguddiad 3: l9). Galaru dros gyflwr ei genedl a wnaeth Iesu, a'i awydd ysigol oedd ei gweld yn dod i edifeirwch. Er yr ysgrythurau a'r paratoadau, nid oedd yn ei gwrthnysigrwydd wedi deall ffordd Duw: 'Jerwsalem, Jerwsalem, tydi sy'n lladd y proffwydi ac yn llabyddio'r rhai a anfonwyd atat, mor aml y dymunais gasglu dy blant ynghyd, Fel y mae'r jar yn casglu ei chywion clan ei hadenydd, ond gwrthod a wnaethoch' (Luc l3: 34), , Pan ddaeth yn agos a gweld y ddinas, wylodd drosti gall ddweud, "Pe bai tithau, y dydd hwn, wedi adnabod ffordd tangnefedd ond na, fe'i cuddiwyd rhag dy lygaid'" (Luc l9: 4l-42). Y ffordd na ddeallwyd ganddynt, a'r ffordd a wrthodir gennym ninnau, yw ffordd tangnefedd. Gan fod Duw wedi ein caru ni, ac wedi gwëithredu'r cariad hwnnw yn y creu a'r ymgnawdoliad, disgwylir i ninnau ymateb drwy garu Duw yn gyntaf a'n cymydog Fel ni ein hunain (Luc lo: 27), ac yn ôl Iesu mae 'cymydog' yn golygu , gelyn ' hefyd. 'Carwch eich gelynion ' (Mathew 5: 44) yw gorchymyn yr Arglwydd Iesu, ac mae'n amhosibl esgus caru Iesu a gwrthod ei orchmynion ar yr un pryd: 'Yr un y mae fy ngorchmynion i ganddo ac sy'n eu cadw hwy, hwnnw yw'r un sy'n fy ngharu i ' (Ioan l4: 2l), 'Yr hwn sy'n dweud, "Rwyf yn ei adnabod", a heb gadw ei orchmynion, y mae hwnnw'n gelwyddog, ac nid yw'r gwirionedd ynddo' (I Ioan 2: 4).

Arwyddlun penllanw'r cariad hwnnw yw'r Groes; a gel o ddwyfoldeb a buddugoliaeth y cariad dros holl rymoedd celwyddog ac atgas y byd yw'r atgyfodiad. Fe aeth Iesu i'r groes am fod dynion yn eu pechod yn ei gasáu ac yn dymuno cad gwared ohono o'u bywydau. Yr oedd yn bygwth y drefn, ac y mae o hyd, ond nid yn unig yn bygwth bellach ond wedi ei faeddu, 'Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd' (Ioan l6: 33). Gwaith yr eglwys, felly, yw paratoi'r byd i dderbyn trefn newydd Duw yn Iesu Grist sy'n flaenffrwyth y drefn newydd honno. Er mwyn sefydlu trefn newydd, defnyddir dulliau a gwerthoedd newydd, sef y rhai a ganfyddir yn y Grist croeshoeliedig. Y groes felly yw symbol heddychiaeth Gristnogol- ni all olygu unrhywbeth

arall. Ffordd Duw o newid y byd yw drwy newid yr holl werthoedd yn sylfaenol, y gwerthoedd sy'n sylfaen i'n gwareiddiad a'n ffordd o fyw; ac i bob l sy'n coleddu'r gwerthoedd hynny ac am eu cynnal y mae'r groes a'r hyn a gynrychiola yn warth a ffolineb. ond dyma rym a gallu Duw ar waith! 'Oblegid y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw. Y mae'n ysgrifenedig: "Dinistriaf ddoethineb y doethion, a dileaf ddeall y deallus". Pa le mae'r gwr doeth? Pa le y mae'r gwr dysgedig? Pa le y mae ymresymydd yr oes bresennol? oni wnaeth Duw ddoethineb y byd yn ffolineb? Oherwydd gall rod y byd, yn noethineb Duw, wedi methu adnabod Duw trwy ei ddoethineb ei hun, gwelodd Duw yn dda trwy ffolineb yr hyn yr ydym ni yn ei bregethu achub y rhai sydd yn credu. Y mae'r Iddewon yn gofyn am arwyddion, a'r Groegiaid hwythau yn chwilio am ddoethineb. Eithr nyni, pregethu yr ydym Grist wedi ei groeshoelio, yn dramgwydd i'r Iddewon ac yn ffolineb i'r Genhedloedd; ond i'r rhai a alwyd, yn Iddewon a Groegiaid, y mae'n Grist, gallu Duw a doethineb Duw. Oherwydd y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a gwendid Duw yn gryfach na dynion . . . ond pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw er mwyn cywilyddio'r doeth, a phethau gwan y byd a ddewisodd Duw i gywilyddio'r pethau cedyrn, a phethau distadl y byd, a phethau dirmygedig, a ddewisodd Duw, y pethau Hid ydynt, i ddiddymu'r pethau sydd ' (I Gorinthiaid I: l8-25, 27-28).

Heddiw mae'r trwch ohonom, Gristnogion, wedi ymwadu'r groes a dilyn ein ffyrdd hunanol. Nid ydym yn fodlon aberthu *unrhywbeth* (gwelwn ychydig bunnoedd y flwyddyn i goffrau'r eglwys leol yn llawer gormod o faich). Gefnogwn y dulliau dieflig o anghrist-nogol y mae'r grymoedd bydol gwrth-Gristnogol wedi eu paratoi i amddiffyn ein cyfoeth, pleser a'n breintiau. Rydym yn rhoi ein gobaith mewn pethau marw a'n ffydd yng ngallu grym marwolaeth i'w hamddiffyn. Mewn gair, rydym yn addoli marwolaeth, teyrnas y diafol neu uffern. Yr hyn a addolwn a gawn! Nid Des rhaid bod yn broffwyd, na'n fab i broffwyd, i allu darogan taw dinistr sydd ar ein cyfer-ar lefel unigolion, eglwysi, cenedl yn ogystal â'n gwareiddiad. Dyna yw ein haeddiant!

Ac eto, mae'r groes yn dal yno, ar ganol llwyfan bywyd; mae Duw yn dal i'n caru ac yn dal i gynnig gwaredigaeth i bob un ohonom. Mae'r dewis yn dal yn agored. Dyma'r newyddion da mewn gwirionedd, fod yr Ysbryd Glan yn dal i'n harwain at Dduw yn Iesu Grist ac yn ceisio ein Gael i newid ein ffyrdd mewn edifeirwch a'i ddilyn ef. Nid oes gobaith arall i ni. Trown ato -mae'r amser yn prinhau! Mae neges Duw inni yr un fath a'i neges i Sardis gynt: ' Gwn am dy weithredoedd, a bod gennyt enw dy fod yn fyw er mai marw ydwyt. Bydd effro, a chryfha'r hyn sydd ar ol gennyt, sydd ar ddarfod amdano, oherwydd ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn yng ngolwg fy Nuw. Cofia, felly, beth a dderbyniaist ac a glywaist ; cadw at hynny ac edifarha' (Datguddiad 3: 2-3). Cais d chyfarwyddyd sydd yma i'r eglwys fel eglwys edifarhau. Rhaid i eglwysi Cymru wneud yr un modd.

SWYDDOGAETH EGLWYS YN YR ARGYFWNG PRESENNOL

Dewis offeryn Duw i gydweithio a'r Arglwydd i achub y byd yw'r eglwys. Drwy'r eglwys y mae'r Ysbryd Glan yn gweithio i oleuo'r byd, ond pan fo'r goleuni hynny'n pylu nid yw'n werth dim, a chystal ei ddiffodd yn llwyr. ond beth yw eglwys? Mabwysiadodd y

Cristnogion cynnar y gair *ecclesia'* o'r Roeg, ac ystyr y gair yn ei gyswllt gwreiddiol yw: casgliad o bobl yn dod ynghyd i drafod a phenderfynu ar fodd i weithredu. Un o eiriau a ddeliai a'r drefn wleidyddol oedd. Dyma felly oedd 'eglwys' iddynt hwy, pobl yn dod ynghyd i addysgu eu hunain a'i gilydd yn ewyllys Duw iddynt, a dod i benderfyniad ar y modd i weithredu'r ewyllys hwnnw yn eu bywydau fel cymdeithas, a chynllunio sut oedd ennill y byd i Grist.

Mae'n bwysig nodi, felly, mai cymuned yw eglwys. Nid casgliad o unigolion sy'n cwrdd ac yna dychwelyd i'w bywydau annibynnol, ond cymuned sy'n cydweithio, cyd-fyw a chyd-ddyheu. Dyna arwyddocâd yr oedfa gymun i Paul- symbol o undod y gymuned yng Nghrist, ' A'r bara yr ydym yn ei dorri, onid cydgyfranogid o gorff Grist ydyw? Gan mai un yw'r bara, yr ydym ni, a ninnau'n llawer, yn un corff, oherwydd yr ydym i gyd yn cyfranogi o'r un bara' (I Corinthiaid lo: l6-l7). '

Lle bynnag y mae pobl wedi clod ynghyd felly i geisio gweithio allan yr ewyllys dwyfol, mae yno eglwys Iesu Grist: 'Oherwydd lle y mae dau neu dri wedi clod ynghyd yn *fy* enw i, yr wyf yno yn eu canol' (Mathew l8: 2o). Pwrpas bodolaeth yr eglwys yw addoli Duw drwy ledaenu terfynau ei deyrnas, os na wna hyn Hid yw'n eglwys. *Os* Had ydym ninnau, Fel unigolion yn rhoi o'n gorau mewn ffyddlondeb a theyrngarwch i'r gymuned sy'n cwrdd yn enw ac er mwyn yr Arglwydd Iesu, Hid ydym yn aelodau o'i eglwys. *Os* Had ydym yn aelodau o'i eglwys, ni allwn ein galw ein hunain yn Gristnogion, gall mai'r Cristion yw'r un sy'n gweithredu ewyllys Duw, ac ewyllys Duw yw gwneud defnydd o'r eglwys i achub y byd.

Yr hyn a wnaeth Iesu yn ei weinidogaeth ddaearol oedd galw ynghyd nifer o bobl yn ŵyr a gwragedd; dewisodd ddeuddeg ohonynt i fod yn arweinwyr. Ffurfiodd gymdeithas ohonynt gall dreulio ei amser yn eu cyfarwyddo a dysgu iddynt hanfodion teyrnas Dduw a'r moddion y dylid eu defnyddio i hyrwyddo'r deyrnas. Dyma a gawn yn y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5-7). Sylwer fod Iesu yn eu hannerch yn y lluosog drwy gydol y bregeth-' Chwi yw halen y ddaear . . . Chwi yw goleuni'r byd . . . Byddwch chwi yn berffaith . . . ceisiwch yn gyntaf ei deyrnas a'i gyfiawnder ef. . .' ac yn y blaen. Ac wrth ddysgu ei ddisgyblion i weddïo, a gosod patrwm o weddi iddynt, gosododd batrwm o weddi gymdeithasol: *'Ein* Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear Fel yn y nef. Dyro *inni* heddiw *fin* bara beunyddiol; a maddau *inni fin* troseddau, Fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd i'n herbyn: a phaid *a'n* dwyn i brawf, ond gwared ni rhag yr Un drwg '; a rhan olI-bwysig o'r weddi gymdeithasol hon yw ymbil am i deyrnas Dduw ddod yn ffaith ar y ddaear (nid yn unig yn yr eglwys). Yr hyn a wnawn felly, yw gofyn i'n tad nefol ein cynorthwyo Fel cymdeithas i achub y byd i deyrnas Dduw NAWR. Golyga hynny fod arnom gyfrifoldeb i roi dulliau a gwerthoedd y deyrnas ar waith NAWR. Yr eglwys yw'r ernes o'r deyrnas-nid yr eglwys yw'r deyrnas (fel pe bai angen dweud hynny!); daw honno yn ei holl gyflawnder gyda'r fuddugoliaeth derfynol. Ein cyfrifoldeb ni yw paratoi'r byd ar ei chyfer. Ai dyma a wnawn? A allwn edrych ar ein heglwysi lleol a datgan: 'Dyma ni, gymdeithas o bobl yr Arglwydd *(kuriake=church),* cymuned o bobl sy'n cwrdd yn gyson a ffyddlon i weithio allan ein cyfrifoldeb i Dduw ac yn bwrw ati i achub ein cymdogion, ein cenedl a'n byd '? Gallwn gredu fod pobl yn edrych ar ein cymuned a gweld ynddi adlewyrchiad o'r nef? Neu a ydym fel gweddill clybiau a chymdeithasau daearol yn llawn ymraniadau a chynnen a chenfigen, yn hunanol ac uchelgeisiol, heb weld unrhyw bwysigrwydd mewn ffyddlondeb a theyrngarwch cyhyd ag y hod ychydig bunnoedd yn cael eu cyfrannu fel tal aelodaeth

er mwyn gallu hawlio gwasanaeth yr eglwys pan ddaw'r angen, a hyd yn oed hawlio cael mynd i baradwys? Pa ddarlun ohonom sydd gywiraf?

Mabwysiadu dulliau Duw o weithredu yw cyfrifoldeb yr eglwys, a phwyso ar y byd i wneud yr un modd-bod yn oleuni i'r byd ac yn lefain yn y blawd. Rhybuddio a cheryddu pan ei hod yn amlwg rod y dulliau a ddefnyddir yn groes i ewyllys Duw, a bod yn esiampl i'r byd drwy ffurfio'r ' gymdeithas arall' *(alternative society)* go iawn, cynnig bywyd yn ei holl gyflawnder drwy ymdrechu yn barhaus am gyfiawnder a heddwch ac ymwrthod a ffordd angau. Newid y byd o'r brig i'r bôn, a gwneud hynny yn nannedd pob sarhad a gwrthwynebiad oherwydd 'Rhaid ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion' (Actau 5: 29). Nid hod yn gasgliad o unigolion hunanol sy'n ceisio dim ond iachawdwriaeth bersonol; does dim yn waeth, yng ngolwg Iesu, na hunanoldeb; nid oes gobaith i unrhyw un yn y cyflwr hynny: 'Oherwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll' (Luc 9: 24).

Nid yw dileu arfau niwclear yn mynd i achub y byd, ac nid ein dymuniad yw cael gwared a'r arfau hyn er mwyn i'r byd gario ymlaen yn ei ffurf bresennol. Mae'r ddynoliaeth wrthi yn prysur ddinistrio'i hunan drwy gant a mil o ffyrdd eraill, a'r dinistr gwaethaf oll yw'r dinistr ysbrydol: 'Pa elw a gaiff dyn o ennill yr holl fyd a'i ddifetha neu ei fforffedu ei hun' (Luc 9: 25). Arbed y byd fel bod iddo gyfle i gael ei achub yw ein dymuniad, gall mai dyna ddymuniad Duw. Dyna pam nad ydyw eisoes wedi cyflawni ei fwriad i ddwyn i mewn y drefn newydd, , Nid yw'r Arglwydd yn oedi cyflawni ei addewid, fel y bydd rhai pobl yn deall oedi; bod yn ymarhous wrthych y mae, am nad yw'n ewyllysio i neb gael ei ddinistrio, ond i bawb ddod i edifeirwch ' (2 Pedr 3: 9).

Ydy, mae Duw yn Iesu yn cynnig heddwch i'r byd, ond ar ei delerau ef. Datganwyd hynny gall y côr angylion ar y Nadolig cyntaf: , Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear *tangnefedd ymhlith dynion sydd wrth ei fodd'* (Luc 2: l4). Meddai Iesu ei bun: 'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi yn rhoi i chwi ' (loan l4: 27). Y mae'r heddwch y mae'r byd yn ei gynnig, fel y gwyddom ond yn rhy dda, wedi ei sylfeini ar ofn, dychryn, bygwth a brawychu'r gelyn drwy ei gasáu a bod yn barod i lofruddio ei blant a'i henoed. Nid dulliau'r byd hwn yw dulliau Iesu ond yn hytrach ddulliau Duw drwy garu hyd yr eithaf, a chreu cymdeithas newydd y seilir ei bodolaeth ar gariad. 'Ac yr wyf am ddangos i chwi ffordd ragorach fyth . . . Y mae cariad yn hir ymarhous; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw'n cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo. Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam, nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder; ond y mae'n cydlawenhau a'r gwirionedd. Y mae'n goddefi'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf ac yn dal ati i'r eithaf' (I Corinthiaid l3: 4-7). Geiriau gorgyfarwydd yw'r rhain a neilltuwyd i'w darllen mewn priodasau a digwyddiadau ' neis, neis ' eraill. Darllenwn nhw eto, a dadansoddwn nhw-maent yn gwbl eithafol a chwyldroadol. Rydym wedi eu trin yn llawer rhy hir fel rhyw ddelfryd sydd y tu hwnt i'n cyrraedd, gwnaethom yr un modd gyda'r Bregeth ar y Mynydd-ond dyma fan cychwyn ein ffydd ni! Os derbyniwn Iesu fel Arglwydd bywyd, dyma'r modd i fyw yn ein cymdeithas yma, nawr.

Rhaid inni fel eglwysi yng Nghymru, ystyried o'r newydd beth yw ein blaenoriaethau a phwrpas ein bodolaeth. Trown ein capeli yn ganolfannau i gymunedau ddod ynghyd i foli

a thrafod a chreu cymdeithas o bobl yr Arglwydd sy'n gwbl ymroddgar i gyflawni ei ewyllys er. Nid mynd i fan o addoliad yw nod a phen draw ein ffydd, ond ei man cychwyn, ac ni ellir cyflawni dim heb fan cychwyn. Ystyriwn yn ddwys beth yw goblygiadau ' tangnefedd' a 'cyfiawnder ' i'n ffordd ni o fyw. Rhown heibio ein hunanoldeb balch a'n hysfa am bleser a chysur arwynebol, a dilynwn arweiniad ei Ysbryd a bod yn barod i fentro i dir newydd, a chymdeithas newydd. Gwnawn hyn er clod i Grist ein Harglwydd. Edifarhawn a chredwn yr efengyl.

Bydded i Dduw tangnefedd, yr hwn a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Fugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cyflawni a phob daioni, er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef; a bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo, trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd! Amen' (Hebreaid l3: 2o-2 l).